*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 16 MEDI 2024** yn rhithiol **dros Zoom** am **14:00 o'r gloch**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2024**

**5. Materion yn Codi**

**6. Opsiynau Canolfan Hyfforddi Newydd (cyflwyniad)**

**7. Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2023-24**

**8. Adroddiad Monitro Perfformiad Ch1 2024-25**

**9. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Dim.**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Mehefin 2024 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Rondo Roberts (gadawodd am 14:37) | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Paul Rogers (o 14:19) | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

**2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2024**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024 i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5.0 MATERION YN CODI**

5.1 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd diweddariad ynghylch paragraff 5.2 mewn perthynas ag absenoldeb salwch, lle'r oedd cais am fod i Archwilio Cymru ddarparu data salwch ar draws y tri GTA yng Nghymru. Cadarnhaodd y DBST fod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru a bod disgwyl y diweddariad nesaf ym mis Hydref 2024. Byddai hyn wedyn yn cael ei ddarparu i'r Aelodau er mwyn craffu arno.

5.2 O ran paragraffau 7.3 a 7.4, mewn cysylltiad ag argaeledd ar y system dyletswydd ar alwad (RDS), amlygodd y DBST Forshaw y ffaith bod y data hwn bellach ar gael yn yr Adroddiad Monitro Perfformiad, oedd wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw.

5.3 O ran eitem 5.1, cadarnhaodd y Trysorydd ei fod wedi siarad â Gweision Sifil yn Llywodraeth Cymru a'i fod yn disgwyl gwybodaeth am y Grant Pensiynau. Gan fod cyfnod yr etholiad yn dal i fynd rhagddo, roedd yn annhebygol y byddai ymateb yn dod i law yn awr nes bod Llywodraeth newydd y DU wedi'i ffurfio a'r ffigwr terfynol wedi'i gytuno. Disgwylid y byddai grant ond nid oedd y swm yn hysbys eto. Mae risg ariannol weddilliol yn parhau ond roedd y dull a ddefnyddiwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb wedi lleihau'r risg hon gymaint â phosibl.

**6.0 TREFNIADAU LLYWODRAETHU AR GYFER GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU**

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx y papur ar y Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gan dynnu sylw at y neges ddiweddar i arweinwyr cynghorau gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am dân. Cadarnhaodd y papur hefyd gyhoeddiad diweddar Pwyllgor Craffu Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, "Seinio'r

Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub", a oedd yn ystyried trefniadau llywodraethu'r sector.

6.2 Roedd y dogfennau hyn yn amlygu i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried materion sy'n berthnasol i'r trefniadau llywodraethu ynghylch y sector tân yng Nghymru.

6.3 Cadarnhaodd un Aelod eu bod wedi mynychu cyfarfod gydag Arweinwyr Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn ac y disgwylid y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu maes o law.

6.4 Mynegwyd peth pryder fod y penderfyniad yng Nghaerdydd wedi cael ei yrru gan y sefyllfa yn y De, ac nad oedd rhai o'r syniadau a fynegwyd gan y Gweinidog yn gynaliadwy. Teimlid hefyd na fyddai fawr o amser i aelod Cabinet allu eistedd ar yr Awdurdod ac y byddai angen llawer mwy o feddwl am yr aelodaeth arfaethedig er mwyn gwneud iddi weithio.

6.5 Nododd y Trysorydd, ar sail ei brofiad o eistedd ar Gabinetau Cynghorau ac yng nghyfarfodydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â bod yn rhan o'r Awdurdod Tân, ei fod yn pryderu am rai awgrymiadau yn y papurau cenedlaethol ar Lywodraethiant. Teimlai y gallai'r syniad y gallai Prif Swyddogion Tân fod yn gyffredinolwyr heb brofiad o Wasanaeth Tân ac Achub leihau cost-effeithiolrwydd a bod aelodau Cabinet Cynghorau yn brysur gyda phortffolio, ac na fyddent yn gallu blaenoriaethu dyletswyddau Awdurdod Tân ac Achub.

6.6 Dywedodd ymhellach y byddai praesept yn fodd mwy tryloyw o ariannu Awdurdodau Tân ac Achub, ar yr amod bod mwyafrif yr aelodau yn gynghorwyr mewn awdurdodau lleol cyfansoddol.

6.7 Cynghorodd y Prif Swyddog Tân mai barn y Pwyllgor Archwilio oedd y dylai'r Awdurdodau Lleol barhau i gael eu cynrychioli er mwyn sicrhau parhad atebolrwydd ar lefel leol.

**6.8 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gwaith a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio gydag Awdurdodau Lleol De Cymru; a**

**ii) nodi ail ran yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol sy'n egluro eu barn am newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.**

**7.0 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD 23-24**

7.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, a oedd yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn

ariannol 2023/24, perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod, a gweithgarwch arall nodedig o ran digwyddiadau.

7.2 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn braf gweld y gostyngiad yn nifer y tanau mewn anheddau domestig.

7.3 Gofynnodd un Aelod sut berthynas oedd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ag asiantaethau partner eraill o ran argyfyngau sy'n ymwneud â'r tywydd. Cadarnhaodd y PST fod gan y Gwasanaeth berthynas waith dda iawn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac â phartneriaid allweddol eraill, a'u bod yn cydweithio wrth ymateb i'r digwyddiadau hyn.

7.4 Dywedodd y Rheolwr Ardal Jones wrth yr Aelodau fod gan y Gwasanaeth gynrychiolaeth ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru Gyfan hefyd.

7.5 Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw gynlluniau i ddechrau gosod gardiau stof fel mesur ataliol, a chadarnhaodd y PST fod y Gwasanaeth eisoes yn rhan o'r cynllun peilot a'i fod yn ymddangos yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau i gyflwyno hyn yn ehangach wedi'u cadarnhau eto.

**7.6 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

**8.0 ADRODDIAD CYNNYDD AR YR ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS**

8.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw yr Adroddiad Cryno ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Rhoddodd yr adroddiad hwn yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023 i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.

8.2 Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am eu holl waith caled hyd yma wrth chwilio am ateb ymarferol.

**8.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi ymgysylltiad ac ymdrechion yr holl randdeiliaid ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i gydweithio i ddatblygu opsiynau ar gyfer gwelliannau i ddarpariaeth frys deg a chyfiawn ar draws Gogledd Cymru; a**
**ii) nodi'r cynnydd a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a Gweithgor Adolygiad o'r**

**Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.**

## 9.0 Y SIARTER AR GYFER TEULUOEDD SYDD WEDI DIODDEF PROFEDIGAETH YN SGIL TRASIEDI GYHOEDDUS

9.1 Cyflwynodd y PSTC Evans y papur ar y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus (y Siarter), a oedd yn nodi cefndir, manylion a gofynion y Siarter ar gyfer Aelodau'r Awdurdod.

9.2 Nododd y Cadeirydd ei fod yn croesawu cyflwyno'r Siarter hon a'i fod yn teimlo y byddai'n fuddiol dros ben.

**9.3 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cadarnhau'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus mewn cyfarfod llawn o'r Awdurdod yn y dyfodol, o dan y telerau canlynol:**

- **Cadeirydd yr Awdurdod yn llofnodi'r Siarter ar ran yr Awdurdod;**
- **y Prif Swyddog Tân yn llofnodi'r Siarter ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth); a**
- **bod y sylw dyladwy yn cael ei roi i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wrth weithredu a mabwysiadu'r Siarter.**

**10 ADRODDIAD AR ADOLYGIAD DATGARBONEIDDIO 2021-22**

10.1 Rhoddodd y PSTC Evans grynodeb o'r papur ar Adolygiad Datgarboneiddio 2021-22 a oedd yn rhoi adroddiad ar gynnydd tuag at roi argymhellion adroddiad Archwilio Cymru 'Lleihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru', dyddiedig mis Mawrth 2022, ar waith.

10.2 Gofynnodd un Aelod i ddiolch gael ei gyfleu i'r swyddogion hynny fu'n ymwneud â threfnu a darparu'r Gweithgor Cynaliadwyedd. Roedd ymgysylltu â'r Gweithgor a chyfrannu ato wedi bod yn broses rwydd a hynod o werth chweil.

**10.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn; a**

**ii) chyflwyno argymhellion ar gyfer polisïau datgarboneiddio manwl i'r Panel Gweithredol dros y flwyddyn sydd i ddod**

**11.0 RHEOLI RISG STRATEGOL**

11.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Jones y papur Rheoli Risg Strategol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnwys cofrestr risg strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risg Strategol.

11.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau nodi'r ffaith bod y gofrestr hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod.

**11.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r risgiau strategol a nodwyd sydd yn wynebu'r Awdurdod yn dilyn adolygiad diwedd y flwyddyn.**

**12.0 MATERION BRYS**

12.1 Nid oedd materion brys i'w codi.

Daeth y cyfarfod i ben am: 14:49.

*This document is available in English* **Eitem Agenda** 06

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Medi 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 i aelodau Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol wedi'r flwyddyn ariannol dan sylw.

3 Mae darpariaeth o fewn Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol o'u cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

## ARGYMHELLIAD

4 Bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer cyfnod 2023/24; ac yn

ii) cymeradwyo'r Asesiad Blynyddol o Berfformiad 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.

## CEFNDIR

5 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn hunanasesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gwelliant (Mesur 2009) a Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) y flwyddyn flaenorol.

6 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub hyblygrwydd i ddewis sut y byddant yn adrodd ar eu perfformiad, ond er mwyn sicrhau cysondeb

o ran adrodd ac atebolrwydd, argymhellir bod pob adroddiad yn cynnwys:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r ATA wedi'u defnyddio er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, fel sydd wedi'i nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
- Asesiad cryno o farn yr ATA ynghylch ei lwyddiant wrth fodloni ei amcanion gwella, fel sydd wedi'u nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
- Datganiad o berfformiad ar sail yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol, p'un a ydynt yn ymwneud â'r amcanion gwella yn uniongyrchol neu ddim;
- Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;
- Asesiad o berfformiad trwy gymhariaeth â pherfformiad yr ATA mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrff cyffelyb eraill (gan gynnwys ATA eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;
- Manylion am y ffyrdd y mae'r ATA wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan nodi a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac
- Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr ATA mewn ymateb i adroddiadau a gyhoeddwyd iddynt gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

**GWYBODAETH**

7 Mae dyluniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu fersiynau blaenorol o'r asesiad yn ystod cyfnod Cynllun Corfforaethol 21-24. Bydd dyluniad Asesiad Perfformiad Blynyddol 24-25 yn adlewyrchu dyluniad 'Ein 5 Egwyddor'.

8 Gan mai dyma'r olaf o dair blynedd y cynllun, mae trosolwg o'r cynnydd a wnaed dros oes y cynllun wedi'i gynnwys ynghyd â'r diweddariad blynyddol ar gynnydd.

9 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |



## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023-24

Cyhoeddwyd Hydref 2024

This publication is available in English

# Cynnwys


Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd .......... 4

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru .......... 4

Gogledd Cymru .......... 4

Adnoddau a Gweithgaredd .......... 5

Staffio .......... 5

Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân .......... 6

Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant .......... 7

Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru .......... 8

Amcan 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch .......... 14

Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael .......... 17

Amcan 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid .......... 20

Amcan 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg .......... 23

Amcan 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd .......... 26

Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael .......... 28

Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad .......... 31

Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2023-24 .......... 33

Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni .......... 39

Gwybodaeth Arall .......... 39

Ymgynghoriadau .......... 40

Geirfa a Diffiniadau .......... 41

Dweud eich dweud .......... 43

## Croeso i'r trydydd asesiad perfformiad, a'r olaf, o'n cynllun Corfforaethol 2021-24.

Mae'r adroddiad asesu hwn, ar ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion gwella a llesiant, yn nodi blwyddyn olaf y cynllun corfforaethol tair blynedd, a ddechreuodd yn fuan cyn i mi gyrraedd fel Prif Swyddog Tân, a phenodiad Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cyflawni cymaint ac wedi addasu i heriau fel adfer ar ôl Covid-19, bygythiadau seiber cynyddol i'n seilwaith TG, a heriau ariannol sylweddol. Fodd bynnag, natur gwelliant parhaus yw ei fod yn sicrhau bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus datblygu ac addasu'n gyson er mwyn rhoi'r gwerth gorau posibl am arian.

Yn fy 100 diwrnod cyntaf, sefydlais flaenoriaethau ar gyfer argaeledd y System Dyletswydd ar Alwad (RDS), Hyfforddiant, a chapasiti Corfforaethol, a fyddai'n cael eu cynnwys mewn fersiynau dilynol o'r Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Mae'r rhain wedi'u hamlygu yn yr adolygiad o brofiad staff RDS, y gwaith parhaus o Adolygu'r Ddarpariaeth Frys, a Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi.

Rydym wedi cynyddu'r capasiti Corfforaethol er mwyn cydymffurfio â chyfrifoldebau llywodraethu a llywodraethu corfforaethol, gan yr un pryd leihau nifer ein staff corfforaethol cyffredinol. Mae penodi Swyddog yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, Rheolwr Diogelwch, Risg a Hawliadau, a Swyddog Caffael, yn arbennig, wedi cryfhau ein sefyllfa.

Yn weithredol, rydym wedi parhau i ddarparu ar gyfartaledd dros 17,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach bob blwyddyn i'r bobl a nodwyd fel y rhai mwyaf agored i dân yn eu cartrefi. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad o 15.75% mewn tanau damweiniol mewn cartrefi dros y tair blynedd diwethaf, ac er nad oedd unrhyw farwolaethau oherwydd tanau ar draws Gogledd Cymru yn ystod 2022-23, yn anffodus bu chwe marwolaeth oherwydd tanau y llynedd, gan amlygu'r angen i wneud mwy o ymdrech a chael ein harwain hyd yn oed yn fwy gan wybodaeth yn ein gweithgaredd.

Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef ar draws ein cymunedau amrywiol. Er bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad o'n gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac oes y Cynllun Corfforaethol 2021-24, rydym bellach wedi cyhoeddi cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer Cadw ein Cymunedau'n Ddiogel er mwyn cefnogi ein cenhadaeth, y gallwch ei ddarllen yma.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein hadrodd. Mae ein manylion cyswllt ar dudalen olaf yr adroddiad hwn.

**North Wales Fire and Rescue Authority**



**Prif Swyddog Tân**



**Cadeirydd yr Awdurdod Tân**

**Gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef**

# Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd

Mae'r Awdurdod o'r farn bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ym mhob agwedd ar ei berthynas â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd i'w gweld yma.

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae 28 aelod etholedig o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Tân, yn cynnwys llawer o wahanol adrannau sydd i gyd yn cyfrannu at redeg y gwasanaeth tân. Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar gael yma.

# Gogledd Cymru

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ardal y mae'r Gwasanaeth yn helpu i'w diogelu yma.



# Adnoddau a Gweithgaredd

Isod ceir crynodeb o adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn 2023-24.

| Gorsafoedd Tân | Injans Tân Llinell Blaen | Galwadau 999 yr Ymdriniwyd â Hwy | Staff y Gwasanaeth Tân (ar 31 Mawrth 2024) |
|---|---|---|---|
| 44 | 54 | 12,744 | 907 (headcount) |
| **Digwyddiadau Argyfwng y Rhoddwyd Sylw Iddynt** | **Tanau** | **Galwadau Diangen** | **Argyfyngau nad oeddent yn Dân** |
| 5,936 | 1,657 | 2,901 | 1,378 |

# Staffio

| Ar 31 Mawrth 2024 | Cryfder cyfwerth ag amser llawn | Cyfrif pennau staff unigol |
|---|---|---|
| Gweithredol Amser Cyflawn (System Dyletswydd Amser Cyflawn) | 269.00 | 270 |
| Gweithredol Rhan Amser (System Dyletswydd Rhan Amser/ar- alwad) | 370.75 | 466 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 137.40 | 140 |
| Ystafell Reoli | 31.00 | 31 |
| **Totals** | **808.15** | **907** |

Nodwch fod y ffigur o 907 a ddyfynnir uchod yn cyfateb i 863 o bobl. Mae hyn oherwydd unigolion sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth mewn mwy nag un rôl neu swydd.

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan yr Awdurdod yn cael eu categoreiddio fel diffoddwyr tân ar-alwad.

# Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Atal Tân** | drefnu bod diogelwch tân yn cael ei hyrwyddo yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys addysgu pobl ynghylch atal tân a'u cynghori pa ymateb sydd orau os bydd tân yn digwydd. |
| **Gorfodi Diogelwch Tân** | bod yn gyfrifol am orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig, er enghraifft, gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i orfodi newidiadau, gorfodi a hyd yn oed roi hysbysiadau gwahardd os ydynt yn canfod bod trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol mewn safleoedd. |
| **Ymateb Brys** | gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac anfon personél hyfforddedig â'r offer priodol i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywydau ac eiddo yn y tanau hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol. |
| **Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau Eraill** | gwneud trefniadau ar gyfer dadheintio pobl ar lefel dorfol ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi cwympo. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau ar raddfa fawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn mannau eraill yn y DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae gan awdurdodau tân ac achub ddyletswyddau hefyd yn ymwneud â dyletswyddau digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a phrif gadwyni cyflenwi. |
| **Argyfyngau Llifogydd a Dŵr Mewndirol** | gwneud trefniadau i ymateb i achosion o lifogydd neu achub o ddŵr sy'n peri bygythiad uniongyrchol a allai achosi marwolaeth neu anaf. |
| **Cydraddoldeb** | gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol. |
| **Y Gymraeg** | trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n ddiffiniedig. |
| **Gwella Parhaus** | gosod amcanion yn barhaus i wella'r hyn a wnânt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliannau a'u perfformiad. |
| **Cynllunio ar gyfer y Dyfodol** | gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol. |


Gallwch ddarllen mwy am ein rhwymedigaethau statudol yma.

# Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2023-24. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2023-24 a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn 31ain Hydref 2024.

Yn 2018-19 cynyddodd yr Awdurdod nifer yr amcanion yr oedd yn eu dilyn er mwyn cydymffurfio'n well ag adran 3(2) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "…sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant".

Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar wefan y Comisiynydd megis 'gwirwyr taith', datblygwyd casgliad newydd o amcanion yn unol â'r datblygiad cynaliadwyedd a fu o gymorth i nodi cyfleoedd o ran sut y gallai'r Awdurdod wella ei gyfraniad at amcanion llesiant Cymru.




Yn ystod 2023-24 gwnaed gwaith i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori ym mhob cynllun adrannol lle bo hynny'n berthnasol. Tanategir y gwaith hwn ymhellach gan ddatblygu set o 'Flociau Adeiladu' sy'n set o fesurau i gefnogi'r amcanion llesiant a'r amcanion adrannol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn aros am gymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ac mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu yn ogystal â chadarnhau cynllun gwaith ar gyfer 2024-25.

Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn y blaengynllun gwaith yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth.

# Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Gall amrywiaeth o ffactorau gynyddu'r risg i bobl ddioddef tanau damweiniol yn y cartref, er enghraifft eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), bod ag anabledd neu gyflwr meddygol cyfyngol, bod ar eu pennau eu hunain adeg y tân, a chael eu heffeithio gan alcohol a/neu gyffuriau.

Mae unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fyddant yn digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac yn iachach, ond hefyd yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae effeithiau llygredd o danau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn atal pobl rhag gwneud

gweithgareddau awyr agored a all effeithio'n negyddol ar les corfforol a meddyliol. Trwy gydol 2023-24, parhaodd yr Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i gadw'n ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd, neu allan yn y gymuned.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 1

Yn ystod blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol, roedd pawb yn dal i gadw at reolau cyfnod clo llym Covid-19 Llywodraeth Cymru, ac eto roedd yn rhaid i'r Gwasanaeth barhau i weithredu wrth gadw ein holl staff yn ddiogel. Roedd yn rhaid archwilio ffyrdd newydd o weithio, ynghyd â dod o hyd i ffyrdd o barhau i gyflawni gweithgareddau atal a diogelwch, gan gynnwys cwblhau Archwiliadau Diogel ac Iach dros y ffôn yn hytrach nag yn bersonol.

Cynhelir Archwiliad Diogel ac Iach gan bersonél y Gwasanaeth a gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig o asiantaethau partner eraill. Yn ystod yr archwiliad, bydd personél yn nodi peryglon diogelwch yn y cartref, yn trafod atal tanau, ac yn cynorthwyo'r deiliad i greu cynllun dianc i'w ddefnyddio yn ystod tân.

Mae ein targed ar gyfer nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd wedi'i leihau o 20,000 (2021-22) i 17,500, ond mae hwn yn benderfyniad ymwybodol er mwyn cyfeirio ein hadnoddau'n well at yr unigolion hynny y nodwyd mai nhw sydd fwyaf mewn perygl o gael tân yn y cartref.

| Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn rydym wedi: | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| • Cwblhau 51,991 o Archwiliadau Diogel ac Iach | **14,080** | **18,052** | **19,859** |
| • Cwblhau 15,466 o Archwiliadau Diogel ac Iach a ddeilliodd o asiantaethau eraill | **4,895** | **5,733** | **4,838** |
| • Mynychu 1,081 o danau mewn anheddau; mae nifer y presenoldebau wedi gostwng ychydig bob blwyddyn | **400** | **344** | **337** |
| • Cwblhau 1,331 o Archwiliadau Diogelwch Tân | **334** | **575** | **422** |

Fel yr Awdurdod sy'n gyfrifol am orfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yng Ngogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn strategaeth archwilio sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Mae ein Datganiad Polisi Gorfodi yn nodi'r polisi cyffredinol, a'r egwyddorion y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn disgwyl eu dilyn.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cyflawni 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach gydag o leiaf 25% o'r rheini'n cael eu cyflawni ar aelwydydd a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall.

- Cwblhawyd cyfanswm o 19,859 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn, ar roedd 24.4% ohonynt wedi'u cyfeirio gan asiantaeth bartner.
- Dosbarthwyd cyfanswm o 6,032 o Archwiliadau Diogel ac Iach fel blaenoriaeth uchel ac o'r rhain cafodd 54.5% eu cyfeirio gan asiantaeth bartner.
- Cwblhawyd 12,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach gan griwiau gweithredol.
- Mewn cydweithrediad â'r GIG, mae dadansoddwyr perfformiad wedi gwneud gwaith i nodi'r unigolion hynny yn y gymuned a allai fod mewn mwy o berygl o gael anaf pe bai tân yn digwydd.
- Mae criwiau gweithredol bellach yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau dull mwy penodol wrth gwblhau Archwiliadau Diogel ac Iach yn eu hardal leol.
- Parhaodd Rheolwyr Partneriaeth i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel.

### Cam gweithredu 2: Bodloni'r galw cynyddol am ddarpariaeth a chymorth cyfathrebu digidol, gan gynnwys Safonau ac Achrediad Seiberddiogelwch.

- Llwyddodd y Gwasanaeth i ennill ardystiad 'Cyber Essentials'.
- Cyflawnodd yr holl staff TGCh a enwebwyd hyfforddiant seiber a llwyddo yn yr arholiad.
- Recriwtiodd y Gwasanaeth beiriannydd technegol ag arbenigedd mewn seiberddiogelwch.

### Cam gweithredu 3: Datblygu ein cynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu ymdrochol newydd i gynnig ystod ehangach o senarios hyfforddi, a chyflwyno gwelliannau mewn hyfforddiant.

- Ymwelodd y 'gweithgor', sy'n cynnwys aelodau'r Awdurdod Tân ac aelodau allweddol o staff, â'r ganolfan hyfforddi diffoddwyr tân yn Nolgellau i adolygu'r cyfleusterau hyfforddi presennol.
- Cynhaliwyd ymweliadau casglu ffeithiau yng nghanolfannau hyfforddi Tân ac Achub Swydd Gaer a Manceinion Fwyaf i weld y cyfleoedd y gall cyfleusterau hyfforddi modern eu cynnig.

- Mae'r canlynol bellach wedi'u cwblhau:
  - Arolygon topograffig
  - Gwaith archwilio'r safle
  - Arolwg ecolegol
  - Arolwg Coedyddiaeth
  - Asesiad canlyniadau llifogydd
  - Diweddariad a datblygiad cynllun gan y tîm dylunio
  - Diweddariad cynllunio
  - Gwerthusiad o'r opsiynau
  - Cytundeb cyfyngedig
- Mae angen gwaith lliniaru newydd ar y safle, a dim ond yn ystod un cyfnod o'r flwyddyn y gellir ei wneud. Felly, bydd angen cynnal y gwaith hwn o fis Rhagfyr 2023 hyd at fis Hydref 2024 i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl yn y dyfodol o fis Rhagfyr 2024.
- Cynhelir ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynnig dylunio ar gyfer y Ganolfan Hyfforddiant a Datblygu newydd, gan arwain at gyflwyno cynllun terfynol i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

## Cam gweithredu 4: Parhau i gynnal archwiliadau diogelwch tân yn seiliedig ar y rhaglen arolygu ar sail risg.

- Bu'r Gwasanaeth yn hyrwyddo 'Wythnos Diogelwch Busnesau' yn ystod mis Medi gan gynnig amrywiaeth o gyngor diogelwch tân i fusnesau bach a chanolig.
- Tynnodd staff Diogelwch Tân Busnesau sylw at ddeddfwriaeth newydd a ddaeth i rym ar 1 Hydref, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob busnes gofnodi asesiad risg tân a threfniadau diogelwch tân yn llawn, waeth nifer y bobl a gyflogir a maint neu fath y busnes.
- Mynychodd staff diogelwch tân busnesau gyfarfod i drafod yr heriau diogelwch tân sy'n wynebu darparwyr tai. Trafodwyd cyngor diogelwch ac arferion gorau, gan gynnwys rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â sgwteri sy'n cael eu pweru gan fatrïau ïon lithiwm ac e-feiciau yn cael eu storio mewn blociau o fflatiau.
- Yn ddiweddar, mae'r Adran Diogelwch Tân wedi gwella ei gwaith o fonitro tanau sy'n ymwneud â 'nwyddau gwynion'.

## Cam gweithredu 5: Parhau i greu gweithle cynhwysol sy'n galluogi'r holl staff i berfformio hyd eithaf eu gallu, a diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau.

- Mae gan y Gwasanaeth swyddog 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' penodedig.

- Trwy'r Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth, mae staff wedi cael cymorth i fynychu cyfleoedd datblygu allanol, gan gynnwys:
  - Penwythnos Datblygu Menywod yn y Gwasanaeth Tân
  - Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth
- Mynychodd staff y Gynhadledd Cymdeithas Gwasanaeth Tân Asiaidd yn Leeds a oedd â'r thema 'Ysgogi Symud a Deall Eich Dylanwad'. Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol fod hyn yn rhywbeth i'n hatgoffa mai cyfrifoldeb pawb yw cefnogi newid yn y gwasanaeth tân yn gadarnhaol.
- Hyrwyddodd y Gwasanaeth ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys:
  - Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod
  - Mis Pride
  - Mis Hanes Sipsiwn, Roma, a Theithwy
- Cyhoeddwyd adroddiad 'Bwlch Cyflog Rhywedd' (GPG) 2022, sy'n rhoi cipolwg ar ddata cyflog y Gwasanaeth ar gyfer 31 Mawrth bob blwyddyn. Y data GPG diweddaraf yw 8.29%, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 8.30% ar gyfer 2022.
- Rhoddodd yr adran Hyfforddiant a Datblygu wasanaeth adrodd ar waith i adolygu asesiadau dysgu ymgeiswyr, sy'n helpu i ddatblygu sgiliau a nodi rhwystrau a rhagfarnau systemig i'w galluogi i gynllunio polisïau, arferion a gwasanaethau sy'n deg ac yn gynhwysol i bawb yn effeithiol.
- Mae'r Gwasanaeth yn cyfrannu at Grŵp Datblygu Sefydliadol a Phobl Cymru Gyfan (PODG) i nodi cyfleoedd a chynnal trosolwg rhagweithiol o'r holl weithgareddau AD, Dysgu a Datblygu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'r Iaith Gymraeg.
- Roedd Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru Gyfan wedi'i ailsefydlu gyda'r bwriad o sefydlu llinellau sylfaen yn erbyn Adroddiad Sbotolau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Thân Ei Fawrhydi (HMIFRS) ac unrhyw gynlluniau diwylliant a chynhwysiant eraill.
- Mae canllawiau cymorth i ofalwyr ar gael i bob aelod o staff. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod gan rai pobl eisoes gyfrifoldebau gofalu neu eu bod yn debygol o ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu, ac y bydd gofalwyr yn anochel yn rhan o'r gweithlu. Mae hefyd yn gwerthfawrogi y gall rhai gweithwyr gael anhawster i gydbwyso eu hymrwymiadau gwaith a gofalu.

## Cam gweithredu 6: Gwella iechyd, ffitrwydd a lles staff trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, monitro gweithredol ac addysg.

- Mae gan y Gwasanaeth dîm 'Iechyd, Ffitrwydd a Lles' penodedig sy'n rhoi cyngor ar ffordd o fyw. Gallant gefnogi staff gyda rhaglenni ymarfer corff a chymorth maeth. Mae'r tîm hefyd yn Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac yn gallu cynorthwyo mewn argyfwng.

- Gall pob aelod o'r staff gynnal adolygiad ffordd o fyw gyda'r tîm Ffitrwydd Corfforol, sy'n cynnwys asesiad ffitrwydd.
- Gan weithio'n agos gyda'r darparwr iechyd galwedigaethol penodedig, datblygodd y Gwasanaeth ffyrdd newydd o weithio i wella a blaenoriaethu iechyd gweithwyr yn y gweithle.
- Mynychodd staff y gwasanaeth gynadleddau Ffitrwydd Tân i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau, gweithgareddau ac arloesiadau.
- Roedd y tîm 'Iechyd, Ffitrwydd a Lles' hefyd yn rhoi cymorth i ddarpar ymgeiswyr i fod yn ddiffoddwyr tân newydd ar ddiwrnodau dethol diffoddwyr tân.
- Hyrwyddo ffitrwydd:
    - Mae 'Traed ar Dân' wedi'i gynllunio fel her grŵp i annog staff o unrhyw allu ffitrwydd i fynd allan i gerdded ac olrhain eu symudiadau dyddiol.
    - Digwyddiadau Park Run ar draws ardal Gogledd Cymru.
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i Siarter Teithio Llesol Cymru.
- Cafwyd effaith gadarnhaol, gyda nifer y dyddiau o absenoldeb gan staff yn lleihau 7.5% (343 diwrnod neu shifftiau) rhwng 2021-22 a 2023-24.
- Mae'r Arbenigwyr AD yn ymweld â gorsafoedd ac adrannau (yn ystod y dydd a gyda'r nos) ac yn darparu sesiynau Trosolwg AD, gan gynnwys diweddariadau pwysig diweeddar, i ymgyfarwyddo gweithwyr â'r gwasanaethau y mae AD yn eu darparu a'r buddion sydd ar gael iddynt.
- Parhad o'r sesiynau Siop Siarad, a ysgogwyd gan yr Arolwg Staff Teulu Tân. Mae'r sesiynau hyn wedi'u hanelu at hyrwyddo sgyrsiau dwyffordd, gan roi'r cyfle i siarad yn rhydd am faterion ehangach, yn ogystal â thynnu sylw at safbwyntiau a syniadau newydd gan staff mewn gorsafoedd a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Mae'n gyfle i rwydweithio ac i rannu syniadau newydd, i fod yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu herio prosesau mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'r ddwy ochr.
- Cyflwyno llinell gymorth hunanladdiad. Mynychodd staff Adnoddau Dynol hefyd ddigwyddiad atal hunanladdiad a hunan-niweidio, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol a chynnig drafft ar gyfer gwasanaeth yng Ngogledd Cymru.
- Cymerodd staff AD ran mewn Archwiliad Rheoli Presenoldeb lle gwerthuswyd cadernid ac effeithiolrwydd y rheolaethau sy'n cefnogi'r system(au) AD/cyflogres ac absenoldeb oherwydd salwch i sicrhau dilysrwydd, cywirdeb ac amseroldeb taliadau i weithwyr.
- Cyflwynodd y Gwasanaeth gyfweliadau ymadael ar-lein i fonitro a deall yn well pam mae gweithwyr yn gadael y Gwasanaeth Tân, ac i nodi meysydd i'w gwella o ran cadw ac ymgysylltu â gweithwyr.
- Cyflwyno Arolwg Adborth Gwasanaeth 12 mis i ganfod a yw gweithwyr newydd yn cael digon o gefnogaeth yn ystod camau cychwynnol eu gyrfa yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain Fawr. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â gwaith a damweiniau a fu bron â digwydd yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles. Er nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, anogir cyrff cyhoeddus i gynnwys crynodeb o'u perfformiad iechyd a diogelwch yn eu hadroddiadau blynyddol.

# Iechyd a Diogelwch

## Ystadegau digwyddiadau diogelwch dros y flwyddyn ariannol 2023/24

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Gostyngiad o 10% o ddamweiniau**

Cafodd **307** o ddigwyddiadau diogelwch ei gofnodi rhwng Ebrill 1af a Mawrth 31ain, i gymharu â chyfanswm o **412** dros y cyfnod 2022/23. Mae hyn yn ostyngiad o **34%**.

**149**

**Achosion Agos**

**51**

**o anafiadau**

**24%**

**o anafiadau yn arwain at amser i ffwrdd o'r gweithle**


**32**

**adroddiadau o ddifrod i Fflyd Wen**

**45**

**adroddiadau o ddifrod i Fflyd Goch**

### Fath o Ddifrod Cerbyd



Ymlaen: **58%**
Nôl: **25%**
Sefydlog: **17%**

# Amcan 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Mae gweithio gyda chymunedau lleol yn hynod bwysig i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn. Bu'r Awdurdod yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner drwy gydol 2023-24 o amgylch ardaloedd wedi'u targedu er mwyn cynorthwyo cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysg, gan eu galluogi i ddod yn fwy gwydn mewn argyfyngau.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 2 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Rhoddodd y Gwasanaeth gynlluniau Parhad Busnes a oedd wedi'u hymarfer yn dda ar waith yn ystod pandemig Covid-19, ac addasodd staff yn gyflym i weithio gartref neu o eiddo arall a ystyriwyd yn ddiogel. O ganlyniad, ni fu unrhyw darfu ar ein hymateb i argyfwng.

Parhaodd technoleg i ddatblygu'n gyflym, gyda staff yn trosglwyddo o ddefnyddio Skype i Microsoft Teams. Mae'r Gwasanaeth bellach hefyd yn defnyddio dilysu aml-ffactor i gynyddu diogelwch rhag ymosodiadau seiberddiogelwch.

Prynwyd asedau gweithredol newydd, megis camerâu tanddwr, Polion Achub, ac ysbienddrychau, i gynorthwyo criwiau gweithredol mewn digwyddiadau llifogydd a digwyddiadau argyfwng eraill.

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gael eu defnyddio'n rheolaidd i hyrwyddo diogelwch rhag tân, ac i ddarparu gwybodaeth i ardaloedd lleol a allai gael eu heffeithio gan ddigwyddiadau brys parhaus neu fawr.

Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi:

- Cwblhau prosiect arfaethedig i ddisodli'r holl Derfynellau Data Symudol (MDTs), gan fod y dechnoleg bresennol yn agosáu at 'ddiwedd oes'.
- Daeth y feddalwedd a gymerodd le'r Terfynellau Data Symudol â gwelliannau i berfformiad ac argaeledd gwybodaeth, ynghyd â gwelliant ychwanegol i'r caledwedd, sydd bellach yn ddyfais y gellir ei thynnu o'r injan dân.
- Cyflwyno rheolaethau diogelwch seilwaith rhwydwaith ychwanegol i wella diogelwch y system TG.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella cyfathrebu ac integreiddio gyda phartneriaid.

- Yn ystod mis Awst, lansiodd y Gwasanaeth ei fewnrwyd newydd sbon, 'Hwb Tân'. Mae gan bob adran, ardal neu orsaf ei 'hwb' (ardal electronig) ei hun, gyda'r gallu i uwchlwytho eu gwybodaeth a'u digwyddiadau eu hunain i'w rhannu â chydweithwyr. Trwy M365, mae'r ffeiliau a'r ffolderi hyn hefyd yn hygyrch o ddyfeisiau personol.
- Parhaodd hyfforddiant M365 i gael ei raeadru trwy gydol y Gwasanaeth.
- Cafodd aelod o staff ei recriwtio i gynllunio a rheoli hyfforddiant M365 ac ymateb i ymholiadau M365 yn ôl yr angen.

### Cam gweithredu 2: Parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo gweithgareddau a dysgu.

- Ym mis Mai, cymerodd staff ran yn ffilmio'r gyfres ddrama sebon Gymraeg 'Rownd a Rownd', gyda'r golygfeydd yn cael eu darlledu yn ystod yr hydref. Roedd un o'r prif gymeriadau yn rhan o dân yn y stori, a diolch i'n cyfranogiad ni fe gafodd pwyslais cryf ei roi ar gyfleu negeseuon diogelwch tân.
- Roedd Gwylfa Las, Caernarfon hefyd ar gamera ym mis Mai, yn cael ei ffilmio fel rhan o raglen 'Rygbi am byth' S4C. Roedd y Rheolwr Criw sy'n rhan o dîm rygbi Merched Caernarfon, yn cael ei ffilmio fel rhan o gyfres ddogfen yn dilyn y tîm drwy'r tymor rygbi. Roedd cynhyrchwyr y gyfres yn awyddus i ddarganfod mwy am y gwaith mewn gorsaf dân, a oedd yn gyfle i hyrwyddo llwybrau gyrfa o fewn y gwasanaeth.
- Cefnogodd y Gwasanaeth yr ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg', a lansiwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i annog pawb i ddefnyddio'u Cymraeg bob dydd. Darparwyd byrddau 'weip-sych' newydd i'w defnyddio mewn gweithleoedd a gorsafoedd i helpu i gefnogi dysgwyr Cymraeg a Phencampwyr y Gymraeg.

### Cam gweithredu 3: Gweithio ar y cyd â'n partneriaid a'n cymunedau i ddatblygu cynlluniau i leihau ac ymateb i danau gwyllt ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

- Mynychodd staff Gynhadledd Tanau Gwyllt Cymru Gyfan ddeuddydd ym Merthyr Tudful ym mis Mehefin. Cafodd y digwyddiad ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a roddodd gyfle i gydweithwyr ledled Cymru gysylltu â'i gilydd a datblygu strategaethau ar gyfer y dyfodol wrth ymateb i danau gwyllt.
- Mynychodd staff Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf i dynnu sylw at negeseuon diogelwch a thynnu sylw at beryglon tanau gwyllt.
- Mae menter Dawns Glaw Cymru gyfan, sef tasglu aml-asiantaeth sy'n ceisio mynd i'r afael ag effaith tanau glaswellt, yn y broses o drawsnewid yn Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru. Cyfarfu ar faes y Sioe Frenhinol i lansio'r Siarter Tanau Gwyllt newydd.
- Yn ystod mis Medi, derbyniodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hyfforddiant gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub ar alluoedd ein Huned Amddiffyn yr Amgylchedd ac offer diogelu rhag llygredd. Cafodd swyddogion CNC gipolwg ar

gynnwys y pecyn amgylchedd ynghyd â chyfle i ddefnyddio rhywfaint o bast 'dammit' i atal gollyngiad. Cawsant gyfle hefyd i weld arddangosiad ar sut i ddefnyddio mat 'dammit', cyn gweld yr offer sy'n cael ei gludo gan Uned amddiffyn yr amgylchedd a chael esboniad ar sut mae'r offer yn cael ei ddefnyddio.

- Mae'r 'Grŵp Llywio Ymgyrchoedd' wedi parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a negeseuon ynghylch Tanau gwyllt yn rhagweithiol ar draws holl lwyfannau'r cyfryngau

## Cam gweithredu 4: Gweithredu argymhellion yr adolygiad tanau gwyllt.

- Fel rhan o waith parhaus Tanau Gwyllt Cymru Gyfan, cafodd y Siarter Tanau Gwyllt ei drafftio, ei hadolygu a'i chwblhau gan bob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i baratoi ar gyfer ei lansio a'i chyhoeddi yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, yn ystod mis Gorffennaf. Gellir gweld y Siarter Tanau Gwyllt yma.
- Mae'r Siarter Tanau Gwyllt yn canolbwyntio ar dri ymrwymiad allweddol:
    - Gweithio mewn partneriaeth
    - Cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol
    - Atal a Diogelu
- Rhoddwyd gwybodaeth i uwch reolwyr am symud a defnyddio asedau a gludir yn yr awyr, er enghraifft, dronau a hofrenyddion.
- Yn ystod mis Mawrth, roedd staff gweithredol ar draws ardal y Gwasanaeth yn cael eu mesur ar gyfer Offer Gwarchod Personol FlamePro ar gyfer Tanau Gwyllt a fydd yn cael eu dosbarthu yn ddiweddarach eleni. Dyma becyn ysgafn a fydd o fudd mawr yn ystod amodau tanau gwyllt heriol.
- Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ynghylch gweithgareddau tanau gwyllt, a mynychu a chymryd rhan mewn adolygiadau ôl-drafodaeth rhithwir a diweddariadau hyfforddiant.
- Mynychodd swyddogion tanau gwyllt tactegol ddigwyddiadau hyfforddi ar-lein y Swyddfa Dywydd, a oedd yn cynnwys:
    - Tueddiadau tywydd byd-eang a'r DU
    - Gwyddor Tân: Ymddygiad Tanau Gwyllt
    - Ffactorau meteorolegol tanau gwyllt a phlu mwg
    - Newid yn yr hinsawdd ac effeithiau tanau gwyllt

# Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

O ystyried y cefndir o ansicrwydd ariannol, yr argyfwng costau byw, chwyddiant cynyddol a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân ar-alwad.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 3 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Cynyddodd cyllideb y Gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn (£37.07m - £39.41m - £44.39m); fodd bynnag, parhaodd y Gwasanaeth i chwilio am fesurau arbed costau i sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaethau gwerth am arian.

Er mwyn cynnal cyflwyno'r gwasanaethau, cynhaliwyd nifer o adolygiadau mewnol, gan gynnwys:

- Adolygiad o Danau Gwyllt (2022-23)
- Adolygiad o'r System Dyletswydd ar Alwad (2022-23)
- Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (2022-23)
- Adolygiad Arlwyo i ystyried rôl cogyddion mewn Gorsafoedd (2021-22)
- Adolygiad Gweinyddol (2021-22)

Ar 16 Ionawr 2023, cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel rhan o Strategaeth Ariannol 2023-26, i dreialu uchafswm amser ymateb o 35 munud. Mae'r penderfyniad hwn yn lleihau nifer y peiriannau sydd ar gael ledled Gogledd Cymru o 20 i 18 o beiriannau tân yn ystod y dydd, ac i 28 yn ystod y nos. Daeth hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cwblhau'r adolygiad ymateb brys ac ymgynghori ar y canlyniadau gyda rhanddeiliaid perthnasol cyn gweithredu argymhellion.

- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yr Ymateb i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi, a oedd yn cynnwys estyniad oherwydd y lefel uchel o ddiddordeb ynddo.

- Derbyniwyd dros 1,700 o ymatebion, gan ddangos pa mor bwysig oedd yr ymgynghoriad hwn i bobl Gogledd Cymru.

- Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18 Rhagfyr 2023, wrth ystyried pa opsiwn i'w weithredu gan yr ECR, gofynnodd Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (FRA) i "Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i ddatblygu opsiwn parhaol newydd, gan ystyried penderfyniad heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig."
- Lansiwyd apêl fewnol yn gofyn i aelodau o staff gymryd rhan a bod yn rhan o 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys' newydd i edrych ar opsiynau amgen ar gyfer darpariaeth frys. Mae'r grŵp hwn wedi dechrau edrych o'r newydd ar yr heriau sy'n ymwneud â'r rhag-gynllunio cyfredol, a'r ymyrraethau dyddiol sydd eu hangen i gefnogi'r ddarpariaeth o ddarpariaeth frys decach. Mae hyn wedyn yn caniatáu i'r grŵp archwilio sut y gellir cyflawni gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o fewn y gyllideb.
- Ym mis Chwefror cafwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, lle cafwyd cyflwyniadau gan Dîm Trawsnewid y Gwasanaeth, Cyllid a'r Rheolwr Argaeledd i atgoffa pawb am y sefyllfa bresennol a'r heriau i gynhyrchu syniadau a thrafodaeth. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i dair wythnos i ddatblygu'r darn hwn o waith.

### Cam gweithredu 2: Mabwysiadu Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar gyfer ystafelloedd Rheoli fel rhan o adolygiad o'n trefniadau staffio Ystafelloedd Rheoli a sgiliau'r gweithlu gyda'r nod o wella ein gwydnwch.

- Cynhaliwyd a chwblhawyd dadansoddiad bwlch strategol.
- Nododd y dadansoddiad hwn y gwaith sydd ei angen i weithredu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.
- Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a dylid ei gwblhau erbyn diwedd 2024.

### Cam gweithredu 3: Cefnogi'r gwaith o gyflawni deilliannau o adolygiad profiad staff y system ddyletswydd ar alwad.

- • Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r System Dyletswydd ar Alwad (RDS), gan ganolbwyntio ar brofiadau staff sy'n gweithio o fewn y system ddyletswydd hon. Ymchwiliodd yr adolygiad faterion a godwyd gan staff RDS; nododd yr adborth a gasglwyd ac adroddiadau am y system ddyletswydd ar alwad ffynonellau'r materion a nodwyd, a datblygu opsiynau ar gyfer gwelliannau posibl.
- At ei gilydd, sefydlwyd 10 prif ymholiad:
    - Talu a gwobrwyo staff RDS
    - Denu, dethol, recriwtio a chynefino staff RDS
    - Proses dyrchafu staff RDS
    - Cadw staff a rheolwyr llinell leol
    - Neilltuo amser ar gyfer hyfforddi
    - Neilltuo amser ar gyfer gweinyddu
    - Defnydd o sgiliau

    - Ymgysylltu â'u prif gyflogwyr
    - Cydnabod cyfraniadau a dathlu llwyddiannau
    - Gofynion adnoddau

- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn llawer o'r argymhellion. Gwyliodd rheolwyr goruchwylio a chanol gyflwyniad ar y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn, a'r gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhellion.

### Cam gweithredu 4: Mireinio prosesau pensiynau a chyflogres a gweithredu modiwlau cyllideb.

- Roedd cynnydd ar gyfer y cam hwn yn arafach na'r disgwyl oherwydd adolygiad Cyllid a Thollau EF, archwiliad allanol, a gweithredu gofynion cyfreithiol ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân.
- Nodwyd gwaith gan yr ymgynghorwyr meddalwedd ond nid yw wedi'i gytuno eto.
- Mae taflen ffeithiau diffoddwyr tân sy'n gadael wedi cael ei hadolygu a'i dychwelyd i'w datblygu ymhellach.
- Bydd y gwaith yn parhau i gwblhau'r cam hwn.



# Amcan 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Yn ystod 2023-24, parhaodd yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chymunedau ynghylch y gwasanaethau y mae'n eu cyflawni.

Mae dull cydweithredol o weithio ar draws ein swyddogaethau ein hunain ac ar y cyd â'n partneriaid gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang yn ogystal â datblygu technegau arloesol a rhannu arferion gorau.

Ffocws arbennig eleni oedd gwella cyfathrebu â'n staff, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai a gyflogir o dan y system dyletswydd rhan amser (ar-alwad) a gweithredu'r canfyddiadau allweddol o'n harolwg staff Teulu Tân cyntaf un.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 4 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Roedd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023. Buom yn gweithio gyda staff, cyrff cynrychioliadol, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, a grwpiau agored i niwed lleol i ddeall yr hyn sy'n wirioneddol bwysig petaech chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano neu'n ei gynrychioli, angen ein gwasanaethau mewn argyfwng.

Derbyniodd yr ymgynghoriad dros 1,700 o ymatebion. Mae gweithgor Gwasanaeth newydd wedi'i ffurfio i ddatblygu opsiwn parhaol newydd, gan ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a therfynau'r gyllideb arfaethedig.

| Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi: | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| • Mynychu 1,457 o danau bwriadol, yn 2023-24 cofnodwyd y nifer isaf a fynychwyd (466 o ddigwyddiadau). | **472** | **519** | **466** |
| • Cynnal sgyrsiau addysgol diogelwch tân i 40,899 o blant a phobl ifanc. | **2,061** | **18,001** | **20,837** |
| • Cwblhau a dadansoddi dau Arolwg Teulu Tân mewnol yn llwyddiannus yn ystod 2021-22 a 2023-24. | | | |

# Cyflawniadau yn 2023-24

## Cam gweithredu 1: I gaffael a gosod offer stowio i leihau lledaeniad halogyddion tân.

- Yn ystod mis Mai derbyniodd y Gwasanaeth bum peiriant newydd sy'n cynnwys addasiadau halogyddion
- Roedd yr addasiadau o ganlyniad i waith cydweithredol y 'Grŵp Halogyddion', a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r adran Fflyd, yr adran Gweithrediadau Technegol, ac Undeb y Brigadau Tân.
- Bydd y dull stowio offer diwygiedig ar beiriannau tân, ynghyd â chyflwyno gweithdrefn weithredu gadarn yn sicrhau bod amlygiad diffoddwyr tân i halogyddion yn cael ei leihau'n sylweddol.
- Bydd peiriannau eraill yn y Gwasanaeth yn cael eu haddasu yn y dyfodol er mwyn creu mwy o le i storio bagiau cit.
- Rhoddwyd cyflau gwarchod rhag tân a gronynnau i bob diffoddwr tân i helpu i leihau eu hamlygiad i halogyddion tân.
- Cafodd pob diffoddwr tân fag cit ar gyfer Offer Gwarchod Personol (PPE) i sicrhau bod eu PPE yn cael ei gadw'n lân ac yn rhydd rhag halogyddion tân.
- Comisiynwyd dau beiriant golchi diwydiannol newydd i roi glanheuad dwfn i setiau Offer Anadlu (BA) ac offer cysylltiedig i gael gwared ar halogyddion tân.

## Cam gweithredu 2: Gweithredu Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan.

- Yn ystod y flwyddyn, ehangodd y gwaith drwy weithgor Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl Cymru Gyfan, a chytunwyd ar bedair thema newydd i'w datblygu ar gyfer Strategaeth 2024–27:
  - Adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub
  - Iechyd a Llesiant
  - Diwylliant a Chynhwysiant
  - Arloesedd a Thechnoleg
- Fodd bynnag, ym mis Ionawr, gwnaed penderfyniad i ohirio drafftio'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl ar gyfer 2024-27 oherwydd cyhoeddiad adroddiad ar ddiwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

## Cam gweithredu 3: Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ac adolygu'r arolwg staff teulu tân.

- Roedd ail arolwg staff 'Teulu Tân' ar agor rhwng 18 Medi ac 16 Hydref, ac fe'i rheolwyd gan gwmni annibynnol o'r enw 'People Insight' i sicrhau tryloywder.

- Roedd yr arolwg yn agored i bawb o fewn y Gwasanaeth a'i nod oedd ceisio barn ar ystod o bynciau.
- Cofnodwyd cyfradd ymateb o 43%, sy'n is na'r arolwg Teulu Tân cyntaf, a oedd â chyfradd ymateb o 50%.
- Mae Grŵp Prosiect wedi'i greu i arwain y gwaith wrth nodi a chyflwyno cynllun gweithredu.
- Mae diweddariadau rheolaidd yn parhau i gael eu cyfleu i holl staff y Gwasanaeth yn fewnol.

**Cam gweithredu 4: Parhau i ddarparu rhaglenni/gweithgareddau ac ymyriadau Plant a Phobl Ifanc, cyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2023 gan yr holl bartneriaid strategol ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel.**

- Lansiwyd platfform dysgu newydd am ddim, sef 'StayWiseCymru', gydag adnoddau wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc ar stondin y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- Mae StayWise Cymru yn darparu adnoddau y gellir eu lawrlwytho am ddim ar ystod o themâu diogelwch, gyda gwersi sy'n canolbwyntio ar y Gwasanaethau Brys ac Elusennau Diogelwch ar gael. Mae adnoddau ar gael i addysgwyr, defnyddwyr golau glas a'r cyhoedd.
- Ym mis Mehefin, ymwelodd staff ag ysbytai ar draws y rhanbarth fel rhan o 'Wythnos Diogelwch Plant', gan gysylltu â chleifion a'u teuluoedd trwy ein masgot diogelwch tân poblogaidd, Sbarc.
- Parhaodd y Gwasanaeth â'i raglen o Gyrsiau Prosiect y Ffenics, sy'n helpu i fagu hyder mewn pobl ifanc.
- Aeth staff y gwasanaeth Ffeiriau Wythnos y Glas i hyrwyddo cyngor diogelwch tân i fyfyrwyr prifysgol.

# Amcan 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Parhaodd yr Awdurdod i ymestyn ei ymdrechion i ddenu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon diwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod, gan groesawu ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, awydd i ymdrechu am ragoriaeth, amddiffyn cymunedau a gwerthfawrogi ei bobl. Mae gweithlu sydd wedi'i ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel o fudd i bobl Cymru, ac mae fframwaith rheoli perfformiad datblygedig yn cefnogi rheolwyr i fodloni gofynion eu rolau.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 5 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Fe dynnodd tân Tŵr Grenfell yn ystod mis Mehefin 2017 sylw at sut mae'r holl Wasanaethau Tân ac Achub yn ymateb ac yn delio â thanau, yn enwedig mewn adeiladau uchel. Ymatebodd y Gwasanaeth i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'. Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd Dîm Arolygu ar y Cyd, a oedd yn cynnwys uwch aelod o'n tîm diogelwch Tân.

- Hyfforddwyd Swyddogion Ymchwilio i Danau i gydymffurfio â'r safon ISO 17020 newydd (mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cyrff arolygu), a ddaeth i rym ym mis Hydref 2023.
- Parhaodd y Gwasanaeth i fabwysiadu Polisi Gweithio Ystwyth ar gyfer yr holl staff (pan fo'n briodol ar gyfer y Gwasanaeth a'r unigolyn).
- Adnewyddwyd ardystiad Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol.
- Fe wnaeth y Gwasanaeth adolygu a newid y Darparwr Iechyd Galwedigaethol yn ystod y cyfnod hwn.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Parhau i ganolbwyntio ar recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus iawn, llawn cymhelliant a dwyieithog.

- Mae'r Gwasanaeth yn cynnig pum rhwydwaith staff, sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, ond gall unrhyw un ymuno:
    - Merched yn y Gwasanaeth Tân
    - Cefnogwyr Pride Tân
    - Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth
    - Rhwydwaith Staff Crefydd, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH)
    - Rhwydweithiau Rhieni a Gofalwyr

- Cyflwynwyd tri cherbyd lles newydd i'r Gwasanaeth. Mae'r cerbydau hyn wedi'u cynllunio i gynnig cyfleusterau fel cyfleusterau toiled, ac offer i gynhesu bwyd yn ystod digwyddiadau o bresenoldeb hir.
- Cyflwyno gwiriadau GDG bob tair blynedd ar gyfer yr holl staff. Mae gwiriadau'r GDG yn rhan bwysig o fesurau diogelu ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cynnal amgylchedd gwaith diogel i'r gweithwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r broses ddyrchafu diffoddwyr Llawn Amser o dan gylch gwaith y Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol i sicrhau bod y prosesau dyrchafu gweithredol yn cael eu cwblhau'n deg ac yn gyfiawn. Mae hyn wedi cynnwys adolygu'r meini prawf cymhwysedd, y broses ymgeisio, llunio rhestr fer, a'r broses gyfweld.
- Parhau i weithio gyda Swyddog yr Iaith Gymraeg i wella'r wybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio yn ymwneud â gofynion y Gymraeg. Mae hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth wella ymgysylltiad, a chael gwared ar unrhyw rwystrau canfyddedig i wneud cais.
- Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi 'sgiliau cyfweld' i reolwyr gorsafoedd i sicrhau eu bod yn fedrus ac wedi'u hyfforddi'n briodol i gynnal cyfweliadau a thrafodaethau proffesiynol gyda gweithwyr a darpar ymgeiswyr ar gyfer rolau Ar-alwad a Chorfforaethol.

### Cam gweithredu 2: Parhau i weithio tuag at ailddilysu Gwobr Platinwm y Safon Iechyd Corfforaethol.

- Llwyddodd y Gwasanaeth i gael statws aur a phlatinwm yng Ngwobrau 'Cymru Iach ar Waith' yn dilyn gwiriad statws uwch yn ystod mis Ebrill. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod cyflogwyr sy'n dangos polisïau a chamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo gweithluoedd hapusach ac iachach. Mae'r gwobrau'n anfon neges bwerus, yn fewnol ac yn allanol, ein bod wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith gwell.

### Cam gweithredu 3: Datblygu proses nodi a rheoli talent i ddisodli'r rhaglen datblygiad proffesiynol bresennol.

- Ym mis Ebrill, cafodd cynllun mynediad uniongyrchol arloesol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ei lansio. Mae'r cynllun yn galluogi'r rhai sydd â sgiliau arwain profedig i wneud cais am swyddi Rheolwr Gorsaf, heb orfod cael profiad blaenorol yn y gwasanaeth tân na dilyn y llwybr dyrchafiad traddodiadol ar gyfer diffoddwyr tân.
- Mae'r Gwasanaeth wedi disodli'r broses ddyrchafu hirsefydlog a osodwyd ac a aseswyd yn fewnol (ADC), a oedd yn mesur perfformiad unigolyn yn erbyn rhinweddau a phriodoleddau personol blaenorol y gwasanaeth tân. Mae hwn wedi'i ddisodli gan gyfres o ymarferion rheolaethol, wedi'u gosod a'u hasesu'n annibynnol, sydd wedi'u marcio yn erbyn Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Mae'r system newydd hon yn defnyddio seicolegwyr hyfforddedig i asesu ymddygiadau a pherfformiad ein rheolwyr goruchwylio a chanol presennol a darpar reolwyr, ac fe'i cyflwynwyd yn ddiweddar gan yr NFCC yn ystod y broses ddethol genedlaethol a ddefnyddiwyd i benodi'r Rheolwyr Gorsaf Mynediad Uniongyrchol newydd. Mantais arall o'r dull newydd hwn yw ei fod yn addas ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys gwasanaethau gweithredol, rheoli a chorfforaethol. Yn ogystal â'r broses hon a ddefnyddir ar gyfer rheolwyr goruchwylio a chanol, mae'n ofynnol hefyd i'n rheolwyr goruchwylio oruchwylio a rhoi adborth i griwiau sy'n ymgymryd ag ymarferiad safonol y gwasanaeth tân.

- Mae cyfweliadau a chyflwyniadau diploma Datblygu Diffoddwyr tân ar gyfer ein rhaglen datblygu prentisiaid diffoddwyr tân, bellach wedi'u cyflwyno, gyda'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio i nodi unigolion sy'n dangos y sgiliau a'r potensial i ddatblygu eu gyrfaoedd diffodd tân i rolau arweinyddiaeth.
- Mae Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Oruchwyliol yr NFCC (SLDP) wedi cael ei threialu gan staff ar draws y Gwasanaeth, gyda'r cyntaf o'r rhain bellach yn graddio o'r rhaglen ac yn derbyn tystysgrif a roddwyd gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Mae'r cymhwyster hwn bellach yn rhan o gyfres o gymwysterau arweinyddiaeth sydd ar gael i bob aelod o staff eu cwblhau.
- Mae aelodau o'n tîm Hyfforddi a Datblygu wedi gweithio'n agos gyda'r NFCC i ddatblygu Rhaglen Arweinyddiaeth Ganol (MLP) newydd. Mae pedwar aelod o staff wedi dechrau'r rhaglen yn ddiweddar, a byddant yn gweithio'n agos gyda'u Rheolwyr Llinell a'n Cydlynydd Datblygu Proffesiynol i gwblhau'r cymhwyster hwn, yn ogystal â rhoi adborth i lywio penderfyniadau hyfforddiant arweinyddiaeth yn y dyfodol. Yn yr un modd â'r SLDP, mae'r rhaglen hon yn addas ar gyfer staff ym mhob rôl, gan gynnwys gwasanaethau gweithredol, rheolaeth a chorfforaethol.

## Cam gweithredu 4: Cychwyn blwyddyn 1 y strategaeth hyfforddiant gweithredol 3 blynedd.

- Cafodd cynllun hyfforddi ei gwblhau a'i gyhoeddi'n fewnol er mwyn i griwiau gweithredol ddewis ac archebu cyrsiau.
- Ailddatblygwyd y cwrs modiwl diffoddwyr tân i ddiwallu anghenion y diffoddwr tân ar alwad yn well.
- Penodwyd ymarferydd meddygol newydd ar gyfer ysgogi archwiliadau meddygol. Daw hyn yn dilyn oedi sylweddol a gafwyd gan staff sy'n ceisio cael apwyntiadau meddygon teulu.
- Mae aelodau o staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddwyr i ddarparu mwy o allu i gyflwyno hyfforddiant sgiliau craidd.
- Mae ffurflenni adborth cyrsiau yn cael eu defnyddio, ac yna mae eu hatebion yn cael eu dadansoddi i nodi lle gellir gwneud gwelliannau.

## Cam gweithredu 5: Adolygu ac ymateb yn unol â hynny i argymhellion Adolygiad Thematig Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru.

- Cyhoeddwyd yr adroddiad thematig diweddaraf 'Dysgu o Grenfell', yn 2021, gydag argymhellion ar gyfer pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.
- Rhoddwyd ymateb anffurfiol i Gynghorydd Tân Cymru ynghylch y cynnig i beidio â gweithredu'r holl newidiadau diogelwch tân sy'n ofynnol gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell.
- Ymgysylltodd y Gwasanaeth â pheirianwyr a syrfewyr ymgynghorol Llywodraeth Cymru a PRP Consulting Engineers and Surveyors i nodi unrhyw broblemau gydag adeiladau dros 11 metr.
- Mae cytundebau rhannu data wedi'u drafftio i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth ystyrlon rhwng PRP a'r Gwasanaeth.

# Amcan 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral net erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd 'Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel' sy'n ceisio cefnogi'r sector cyhoeddus i waelodlin, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at niwtraliaeth garbon.

Yn 2023-24, ailddatganodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol a'i ystyried ym mhob maes o'i waith, o atal tân i sicrhau ei fod yn ystyried technoleg sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Ymrwymodd yr Awdurdod hefyd i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol er mwyn dod yn sefydliad sy'n fwy amgylcheddol ymwybodol a chyfrifol.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 6

Yn dilyn adolygiad o gynnydd gan Archwilio Cymru, fe wnaeth y Gwasanaeth recriwtio 'Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd'.

Gofynnwyd am wirfoddolwyr gyda'r gwasanaeth i gymryd rhan yn y 'Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd' newydd i edrych ar leihau allyriadau carbon yn ogystal â materion amgylcheddol ehangach y gellid mynd i'r afael â nhw.

Cafodd Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-30 ei drafftio mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Awdurdod, gan gynnwys polisïau manwl ynghylch Fflyd, Ystadau a Chaffael. Mabwysiadwyd y Strategaeth yn ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn ar 17 Gorffennaf 2023, a gellir dod o hyd iddi yma.

| Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi: | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| • Mynychu 290 o lifogydd / gwacáu o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ymwneud â dŵr. Cynyddodd y rhain yn sydyn dros y cyfnod o dair blynedd. | **76** | **68** | **146** |
| • Mynychu 84 o ddigwyddiadau tanau gwyllt, lle'r oedd diffoddwyr tân yn y lleoliad am gyfanswm o 1,750 awr. | **35<br>646 hours** | **35<br>628 hours** | **14<br>476 hours** |
| • Gosod blychau nythu ar eiddo'r Gwasanaeth i helpu i gynyddu'r nifer o wenoliaid duon sy'n gostwng. | | | |
| • Cynnal arolygon delweddu thermol mewn gorsafoedd fel rhan o'n gwaith uwchraddio inswleiddio. | | | |

| |
|---|
| • Cynnal prawf gweithredol o Olew Llysiau Hydrogenaidd (HVO) fel tanwydd cynaliadwy yn lle diesel. |
| • Ymgysylltu â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau manwl i ddatgarboneiddio ein gorsafoedd. |

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Amgylcheddol 2023-30.

- • Cyflwynodd y Gwasanaeth ei Strategaeth Amgylcheddol newydd ar gyfer 2023-30 i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub fel y cam diweddaraf yn ein gwaith i greu Cymru wyrddach a mwy gwydn.
- Mae'r camau gweithredu arfaethedig canlynol wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen:
    - Cynllun datgarboneiddio'r fflyd
    - Cynllun datgarboneiddio gwresogi
    - Cynllun datgarboneiddio pŵer
    - Dechrau ymgysylltu â chyflenwyr er mwyn mynd i'r afael ag allyriadau
- Mae'r Strategaeth Lleihau Gwastraff wedi'i chwblhau ar ffurf ddrafft a bydd yn cael ei chwblhau unwaith y bydd trefniadau ymarferol wedi'u gwneud i gynnwys y rheoliadau rheoli gwastraff newydd yng Nghymru. Yna bydd y Gwasanaeth yn adlewyrchu unrhyw arferion diwygiedig.

### Cam gweithredu 2: Parhau i ddatblygu ein gwaith monitro ac adrodd ar y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

- Cafodd y gwaith ei ohirio i ddechrau oherwydd problemau anfonebu ynni.
- Cafodd materion bilio trydan o fis Gorffennaf hyd at fis Medi eu datrys.
- Disgwylir i daenlenni cofnodion cyllid a defnydd, yn ogystal â'r perfformiad misol ar gyfer 2023-24 yn erbyn llinell sylfaen 2019-20, gael eu cwblhau yn ystod rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2024-25.

### Cam gweithredu 3: Datblygu ein hadroddiadau ar nwyon tŷ gwydr yn unol ag adroddiadau carbon Llywodraeth Cymru.

- Roedd angen gwaith i ddatrys problemau anfonebu ynni cyn y gellid cofnodi data.
- Adroddwyd ar ddata defnydd a defnydd ar gyfer trydan, nwy, LPG, dŵr a gwastraff ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.
- Cwblhawyd taflenni data a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru a'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru.
- Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau, ac wedi'i adrodd i Lywodraeth Cymru.

# Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Gwerth cymdeithasol yw'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Yn ystod 2023-24, parhaodd yr Awdurdod i ddatblygu ei werth cymdeithasol a sicrhaodd fod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan o'i weithgareddau, gan gynnwys cefnogaeth i Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc lleol a Phrosiect Ffenics.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 7 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Parhaodd y Gwasanaeth â'i ymrwymiad i ailgylchu ei gynnyrch diwedd oes ei hun trwy gydweithio â'r elusen 'Fire Aid'. Cynhaliwyd teithiau i Gambia ym mis Mawrth 2022 fel rhan o 'Ymgyrch Zephyr', lle rhoddwyd rhoddion o beiriant tân a chwch achub. Yn fwy diweddar, cymerodd staff o'r Gwasanaeth ran mewn confoi cenedlaethol arall i'r Wcráin i helpu i gyflenwi amrywiaeth o offer diangen.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cynnal adolygiad caffael yn dilyn penodi Rheolwr Caffael newydd.

- Penodwyd y Rheolwr Caffael a Chontractau ym mis Mehefin ac mae wedi bod yn adolygu'r system rhestr eiddo ac yn gwneud cynlluniau cyfluniad cychwynnol.
- Mae gwaith wedi dechrau i ddeall deddfwriaeth caffael newydd, ac mae cyrsiau allanol wedi'u harchebu i edrych ar gaffael cynaliadwy.
- Mae gwaith ar y 'Pecyn Hyfforddi Ymwybyddiaeth Caffael' wedi'i ohirio hyd nes y bydd ymgysylltiad â WRAP Cymru, a fydd yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

### Cam gweithredu 2: Parhau â'n rhaglen adeiladu i ddisodli tyrau hyfforddi gyda gosodiadau tŵr dur newydd.

- Mae'r tri thŵr dur wedi'u gosod yng:
  - Ngorsaf Dân Abermaw
  - Gorsaf Dân Harlech
  - Gorsaf Dân Rhosneigr

- Nodwyd rhai mân newidiadau dylunio ar gyfer pob gorsaf, a gofynnodd yr adran Gyfleusterau am arian i gwblhau'r rhain.
- Cwblhawyd yr holl waith, yn amodol ar rai mân addasiadau i'r tyrau yn unol â chais mewnol gan yr Adran Hyfforddi.

**Cam gweithredu 3: Parhau i ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach i gymunedau Gogledd Cymru.**

- Bu staff Diogelwch Cymunedol yn cysylltu â phobl sy'n byw ar gychod camlas ar hyd camlas Llangollen fel rhan o Fis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Mynychodd Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cyntaf Cymru Gyfan yn Llandrindod, a roddodd gyfleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arferion gorau.
- Treuliodd Therapydd Galwedigaethol arbenigol amser ar secondiad o Wasanaethau Ambiwlans Cymru i ddarganfod mwy am ein gwaith cydweithio, ac i weld y gwaith sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau 'O'r Ysbyty i Gartrefi Iach'.
- Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd fideo cynhwysfawr i adnewyddu gwybodaeth yr holl griwiau diffodd tân ar sut i gwblhau Archwiliad Diogel ac Iach yn gywir. Rhoddodd hyn gyfle i'r tîm diogelu ac atal rhag tân atgoffa'r holl ddefnyddwyr am newidiadau diweddar, gan gynnwys ymyriadau newydd sydd bellach ar gael.
- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.
- Mae gwaith yn parhau gyda grwpiau celcio rhanbarthol i nodi pobl sydd mewn perygl.

**Cam gweithredu 4: Adolygu ein trefniadau rheoli iechyd a phresenoldeb.**

- Cynhaliwyd adolygiad o bolisïau a'r gweithdrefnau presennol:
    - Mae polisi a gweithdrefn 'Gwrth-Aflonyddu Rhywiol' newydd wedi'i weithredu ers mis Mehefin 2023.
    - Diweddarwyd y polisi 'Dyletswyddau wedi'u Haddasu, Addasiadau Rhesymol a Dychwelyd i'r Gwaith yn Raddol' yn dilyn ymgynghoriad â staff.
    - Gwnaed rhai newidiadau i'r polisi 'Rheoli Presenoldeb' yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth ac i'w wneud yn haws ei ddefnyddio.
    - Cafodd y polisi 'Cadw ac Adleoli Gweithwyr Anabl' ei adolygu a'i ddiweddaru i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn cael eu darparu i'r rhai ag anableddau, a hefyd i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn briodol.

- Mae ymdrech gydweithredol ar y gweill rhwng AD, y tîm Iechyd a Llesiant, a'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Amrywiaeth i greu datrysiad menopos sy'n rhoi cymorth i bob aelod o staff sy'n wynebu symptomau'r menopos. Gwnaeth y tîm Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a'r Arbenigwyr AD sy'n arbenigo mewn Recriwtio gymryd rhan mewn cwrs Hyrwyddwyr Menopos ym mis Mehefin. Maent bellach yn mynd ati i gyfeirio unigolion at adnoddau cymorth a chyrsiau ychwanegol sydd ar gael yn y gweithle.
- Mae gwasanaeth adrodd wedi'i sefydlu, gan weithio mewn partneriaeth â 'Safecall', sy'n darparu modd proffesiynol, annibynnol, allanol a chyfrinachol i weithwyr roi gwybod am bryderon. Fel Gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw weithgaredd twyllodrus nac arferion anfoesegol yn digwydd fel bod lle diogel a chynhwysol i weithio ynddo yn cael ei greu.
- Mae cyfres o sesiynau hyfforddi ar-lein wedi'i lansio ar gyfer darpar reolwyr. Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno'n fisol gan arbenigwr AD.
- Mae ymweliadau ffisiotherapi yn parhau i gael eu monitro i sefydlu tueddiadau a chefnogi staff yn well.



# Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad

Cyflwynodd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 dri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion sector a gasglwyd yn lleol.

| DANGOSYDDION STATUDOL: | Blwyddyn 1 ein Cynllun 2021-22 | | Blwyddyn 2 ein Cynllun 2022-23 | | Blwyddyn 3 ein Cynllun 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd |
| Tanau yr aethpwyd atynt | 1,879 | 26.71 | 2,011 | 29.27 | 1,657 | 24.08 |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,517 | 35.79 | 2,674 | 38.92 | 2,901 | 42.15 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 207 | 2.94 | 234 | 3.41 | 251 | 3.65 |
| Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt | 751 | 10.68 | 977 | 14.22 | 1,127 | 16.38 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau ac anafiadau tân | 58 | 8.25 | 40 | 5.82 | 44 | 6.39 |
| Marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol | 50 | 7.11 | 35 | 5.09 | 40 | 5.81 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol | 375 | 87.62% | 330 | 86.84% | 329 | 90.88% |
| Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |

Cyflwynwyd dangosyddion sector ar gyfer 2015 a chytunwyd i gael eu casglu a'u rhannu gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

| SECTOR INDICATORS: | Blwyddyn 1 ein Cynllun 2021-22 | | Blwyddyn 2 ein Cynllun 2022-23 | | Blwyddyn 3 ein Cynllun 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd |
| Tanau bwriadol | 472 | 6.71 | 519 | 7.55 | 466 | 6.77 |
| Tân damweiniol (neu ddim yn hysbys) | 1,408 | 20.02 | 1,492 | 21.71 | 1,191 | 17.31 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau yn gysylltiedig â thân | 7 | 1.00 | 0 | 0.00 | 7 | 1.02 |
| Anafiadau wedi'u hachosi gan dân | 51 | 7.25 | 40 | 5.82 | 37 | 5.38 |
| Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau | 5 | 0.71 | 0 | 0.00 | 6 | 0.87 |
| Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn | 0 | 0 | 0 | 0.00 | 1 | 0.15 |
| tanau bwriadol mewn anheddau | 39 | 5.54 | 26 | 3.78 | 26 | 3.78 |
| Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau | 5 | 0.71 | 3 | 0.44 | 1 | 0.15 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref | 429 | 13.02 | 380 | 11.49 | 362 | 10.90 |
| Tanau damweiniol yn y cartref | 400 | 12.14 | 344 | 10.40 | 339 | 10.20 |
| Tân bwriadol mewn cartrefi | 29 | 0.88 | 36 | 1.09 | 23 | 0.69 |
| Galwadau diangen LTAau mewn cartrefi | 1,100 | 33.40 | 1,165 | 35.23 | 1,387 | 41.74 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o cartrefi | | | | | | |
| Tanau mewn adeiladau annomestig | 156 | 4.74 | 158 | 4.70 | 132 | 3.87 |
| Galwadau diangen LTAau mewn eiddo annomestig | 295 | 8.95 | 365 | 10.86 | 387 | 11.35 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o adeiladau annomestig | | | | | | |
| Tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod | 58 | 13.52% | 50 | 13.16% | 54 | 14.92% |
| As Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |



# Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2023-24

Yn ystod 2012, datblygodd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru Siarter Cymru gyfan ar y cyd i sicrhau, lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru, y gallant ddisgwyl cael cymorth a chefnogaeth i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. Dylent hefyd allu disgwyl, os bydd tân yn cynnau, y byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn:

1. Cymryd yr awenau wrth leihau nifer y tanau mewn cartrefi sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad brys 999 i fynychu tân mewn cartref.
3. Mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â nhw.
4. Delio â thanau cartref yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2023-24.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd yn erbyn y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigurau o fewn y fframwaith naratif.

# 1. Byddwn yn arwain y gwaith o leihau nifer y tanau sy’n digwydd mewn cartrefi a lleihau eu heffaith ar bobl.



Rydym wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gynnal gostyngiad yn nifer yr achosion o danau mewn cartrefi a’r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2023-24 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ar sut y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal yn cynnwys cyflwyno 19,859 o

Archwiliadau Diogel ac Iach i ddeiliaid tai, a chafodd 20,837 o blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1 - 4 sgwrs diogelwch tân.

Yn ystod 2023-24 aethom i 339 o danau damweiniol


mewn cartrefi. O ganlyniad i’r tanau hynny, ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau, ond cafodd 26 o bobl anafiadau difrifol. Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub wedi gostwng, gyda 344 o danau damweiniol wedi eu mynychu yn ystod 2022-23.

Yn anffodus, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf wedi tueddu i fyny.

# 2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad 999 frys i fynd i dân mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999/112 brys i ni.

Mae ein hystafell reoli tân brys yn parhau i fod ar gael bob awr o’r dydd a’r nos bob dydd o’r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau’n ddi-dor o un ystafell reoli i’r llall os bydd aflonyddwch difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy’n dod i mewn ar yr un amser.



Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad a adroddir a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynychu’r digwyddiad.

Yn 2023-24, gwnaethom ddelio â chyfanswm o 12,744 o alwadau 999/112 brys. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am achosion o danau mewn cartrefi i rybuddio’r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 80.7% o achlysuron a rhwng 91 a 120 eiliad ar 9.1% o achlysuron.

Fodd bynnag, gwyddom nad cyflymder trin galwadau - er yn bwysig – yw'r unig ffon fesur berthnasol. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a all, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal y maent ynddi, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgil bwysig arall yw cydnabod pan fo galwr yn cam-drin y system 999/112 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod hynny'n atal lleiafrif o bobl sy'n clymu'r llinellau 999 ac yn dargyfeirio gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa wirioneddol sy'n peryglu bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian, ac yn peri mwy o berygl i weddill y gymuned.

Yn 2023-24, cawsom 76 o alwadau diangen maleisus. Mewn 47% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i'w mynychu.

## 3. Byddwn yn mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â hwy.



Unwaith y byddwn wedi ateb y galwad brys 999/112 a dosbarthu'r adnoddau mwyaf priodol i wneud iawn am y presenoldeb cychwynnol yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel ac yn meddu ar y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Yn 2022-23 rydym wedi ymateb i 8% o danau mewn cartrefi o fewn 1-5 munud, 39% o fewn 5-10 munud, 30% o fewn 10-15 munud ac 23% mewn mwy na 15 munud. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél cyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio. O ganlyniad, gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/gwledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn cartref yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac o gael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os bydd tân mewn cartref wedi digwydd, rydym yn sicrhau bod ein criwiau diffodd tân mewn sefyllfa briodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân gydag offer amddiffynnol personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn heini ac yn iach yn weithredol ac rydym yn sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio fel mater o drefn bod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn unol â gweithdrefnau diffodd tân derbyniol.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y

maent yn ei wneud. Yn 2023-24, mynychodd ein criwiau 1,657 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o eiddo ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 16 aelod o staff gweithredol anaf.



## 4. Byddwn yn delio â thanau mewn cartrefi yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

Rydym wedi ymrwymo i ddelio â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydym yn arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau cywir, y wybodaeth, yr offer diffodd tân a'r cymorth gorchymyn fel y byddant, beth bynnag fo amgylchiadau'r tân mewn cartref, wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag ef.

Yn 2023-24, o'r holl danau mewn cartrefi a aethpwyd atynt, roedd 92% wedi'u cyfyngu yn llwyddiannus i'r ystafell wreiddiol, heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu allan i reolaeth y criwiau oedd yn mynychu, megis faint o amser y byddai'n ei gymryd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân y lleolwyd y cartref, rydym yn dal i ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i offer, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd o ddifrif ddelwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar rinweddau a phriodoleddau personol ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddi gweithredol a rheoli.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan Wasanaeth Tân ac Achub y DU. Mae hyn yn mynegi ein hymrwymiad i werthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwelliant.



## 5. Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i ffrindiau a'i deulu agos. Am y rheswm hwn, nid yw rôl y gwasanaeth tân ac achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan gafodd y tân ei ddiffodd a phan gyfrifwyd am bawb.

Ym mhob achos, bydd achos y tân yn cael ei ymchwilio a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn ynghylch sut a ble y cychwynnodd y tân, i ba raddau y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau i gredu bod tân wedi'i gynnau'n fwriadol mewn cartref, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar drywydd hyn.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannwyd gan nifer o wahanol denantiaid, gallai'r ymchwiliadau ôl-digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, efallai y byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd diogelwch cymunedol

neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd trwy Archwiliadau Diogel ac Iach am ddim.



## 6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol i wneud hynny.

Rydym bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad mwy manwl a fforensig i ganfod achos mwyaf tebygol y tân.

Yn 2023-24, cofnodwyd bod achos anhysbys i 10 o danau mewn cartrefi.

Os amheuir trosedd, bydd ymchwiliad y tân yn cael ei gynnal gyda'r heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu hamau o gynnau tân mewn cartref yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er, mewn rhai achosion, efallai nad dyma'r unig gamau gweithredu sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gychwyn gan blentyn ifanc neu gan berson sy'n ceisio lladd ei hun.

Yn 2023-24, aethom i 362 o danau mewn cartrefi, a chanfuwyd bod 23 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a rennir yn dod o dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y fangre honno (fel y landlord neu'r rheolwr safle) fod â threfniadau diogelwch tân da ar waith.

Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y person cyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon, ac yn gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a risg y drosedd.

Yn 2023-24, fe wnaethom gyflwyno un Hysbysiad Gorfodi. Ni ddaeth unrhyw hysbysiad gwahardd, rhybudd ffurfiol nac erlyniad i ben yn ystod y flwyddyn.

## 7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd yn erbyn amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith beunyddiol o redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n digwydd yn cynnwys:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau cymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau;
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i'r ymgynghoriad, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth;
- Dysgu o'n profiadau, megis o sesiynau briffio ôl-digwyddiad, adroddiadau ar ddamweiniau, neu 'Damweiniau agos';
- • Cyfrannu at weithgorau, rhannu arfer da, a dysgu o ymchwil a wnaed;
- Cymryd cyfleoedd i ddysgu gan, a chyda sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis trwy brosesau rheoli parhad busnes;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol;
- Datblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff yn barhaus;
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol fel ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg.

# Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni

### Archwilio Cymru – Llywodraethu

Rydym yn dal i aros am gopi o'r adroddiad hwn, a byddwn yn rhoi diweddariad cyn gynted â phosibl.

# Gwybodaeth Arall

### Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Atgynhyrchir deunydd hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Rhif Drwydded C2010002320.

Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon:

- Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru (2021)

### Ymyrraeth os bydd methiant neu fethiant posibl i gydymffurfio:

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrraeth:

- o dan adran 22 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrraeth yn berthnasol.
- o dan adran 29 o Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, i gydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

# Ymgynghoriadau

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau cyhoedd Gogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau a'i amcanion strategol.

Rhestrir ymgynghoriadau cyhoeddus isod:

| Teitl | Ymgynghori | Cyhoeddi | Am flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 | Gwanwyn 2024 | Haf 2024 | 2024-29 |
| Adolygiad Gwasanaeth Brys | Haf/Hydref 2023 | Gaeaf 2023 | 2023-24 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020-21 ymlaen (strategaeth amgylcheddol newydd) | Hydref/Gaeaf 2019 | Mawrth 2020 | 2020-21 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019-20 ymlaen | Haf/Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019-20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018-19 ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018-19 |

Rhestrir arolygon staff diweddar isod:

| Teitl | Ymgynghori | |
|---|---|---|
| Arolwg Teulu Tân | Hydref 2023 | 18 Medi - 16 Hydref 2023 |
| Arolwg Teulu Tân | Hydref 2021 | 18 Hydref – 08 Techwedd 2021 |



# Geirfa a Diffiniadau

## Tanau

Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.

## Prif Danau

Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.

Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.

## Tanau Eilaidd

Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n

cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati.

Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

## Tanau Simnai

Mae'r rhain yn danau mewn adeiladau a feddiannir lle mae'r tân wedi'i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

## Tanau yn yr awyr agored

Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth pedwar cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am chwe awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.

## Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)

Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:

- argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffyrdd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;
- trychinebau mawr;

- digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;
- trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

## Marwolaethau Tân (cysylltiedig â thân)

Pan fo marwolaeth person yn cael ei phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Mae yna achosion achlysurol hefyd lle daw'n amlwg wedi hynny nad y tân oedd achos y farwolaeth. Felly, mae'r ffigurau hyn yn destun adolygu.

## Anafiadau tân

Er mwyn sicrhau cysondeb ar ôl mis Ebrill 2009 ledled y DU, cofnodir anafiadau tân o dan bedwar categori difrifoldeb:

- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, ac mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n ddifrifol.
- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai bach.
- Rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ond nid oedd angen triniaeth bellach.
- Cafodd archwiliad rhagofalus ei argymell - cafodd y person ei anfon i'r ysbyty neu fe'i cynghorwyd i weld meddyg fel rhagofal, ond heb unrhyw anaf na gofid amlwg.

## Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)

Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at leoliad gan gredu bod yna ddigwyddiad, ond wrth gyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.

Sylwer: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi nôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei hystyried fel un ag aethpwyd ato ac nid oes angen adrodd amdano.

## Maleisus

Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys amcanion bwriadol a rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.

## Bwriad Da

Mae'r rhain yn alwadau a wneir yn ddidwyll yn y gred y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig.

## Larwm Tân Awtomatig (LTAau)

Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys offer larwm yn cychwyn yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn canu a bod person wedyn yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, heb unrhyw 'feirniadaeth', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.

# Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn ein helpu i wneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau am yr asesiad hwn, neu sut y gallem wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael

- Mewn fformatau papur ac electronig.
- Yn Gymraeg a Saesneg.
- Fel taflen gryno o'r pwyntiau allweddol.
- Mewn fformatau hygyrch trwy ein gwefan.

| | |
|---|---|
| **Ysgrifennwch atom** | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| **Ffoniwch ni** | 01745 535 250 |
| **Anfonwch e-bost atom** | Corporateplanning.helpdesk@northwalesfire.gov.wales |
| **Ewch i'n gwefan** | www.tangogleddcymru.llyw.cymru |
| **Neu dilynwch ni ar** | **X (Twitter):** @northwalesfire<br>**Facebook:** www.facebook.com/northwalesfireservice<br>**Instagram:** @northwalesfire |

# Ffoniwch 999 mewn argyfwng yn unig

This document is available in English

**Eitem 7 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Medi 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad, Ebrill 2024 - Mehefin 2024** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1. Darparu data cymharol sy'n ymwneud ag ymgyrch 'Ein 5 egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau ar weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig, sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

2. Tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw sydd ar gynnydd, yn gostwng neu sy'n newydd.

3. I fod yn sail i ddatblygu gweithgarwch newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw anghenion neu risgiau sydd ar gynnydd neu'n ymddangos o'r newydd.

**Crynodeb**

4. Mae'r adroddiad wedi newid o'i fformat blaenorol i adlewyrchu'r ffaith bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi symud i Gynllun Rheoli Risg Cymunedol.

5. Bu cynnydd sylweddol (76%) mewn achosion o salwch tymor byr yn Ch1 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Tud 4.

6. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y tanau yr aethpwyd iddynt. Aethpwyd i gyfanswm o 414 o danau, gostyngiad o 31.6% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Tud 9.

7. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y tanau damweiniol yn y cartref (TDC) yr aethpwyd iddynt. Aethpwyd i 69 o danau damweiniol yn y cartref yn ystod chwarter cyntaf 2024/25, 24.2% yn llai na'r flwyddyn flaenorol (91). Mae hyn er bod nifer y TDC a briodolir i 'gyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' wedi cynyddu 100.0% o 5 i 10. Tud 11.

8. Aethpwyd at gyfanswm o 798 o Alwadau Diangen yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn gynnydd o 13.7% o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn ariannol flaenorol, oherwydd cynnydd mewn galwadau diangen maleisus, ac mewn galwadau sy'n gysylltiedig â larwm tân oherwydd cyfarpar. Tud 23.

## Argymhelliad

9. Nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

## Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Maent yn helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 |
| Cyllideb | Dim goblygiadau cyllidebol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adrodd yn galluogi'r Awdurdod i ystyried<br>unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Yn cefnogi'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos sut y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Staffio | Dim goblygiadau staffio. Fodd bynnag, bydd alinio'r adroddiad gyda Chynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod yn fwy effeithlon. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Dim goblygiadau risg |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2024 – Mehefin 2024

Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel

POBL | ATAL | DIOGELU | YMATEB | AMGYLCHEDD

## Cynnwys


**Ein Hegwyddor Pobl** .......... **2**
- 1 Absenoldeb Salwch .......... 2
- 1.1 Pob Absenoldeb Salwch .......... 2
- 1.2 Salwch Tymor Byr .......... 4
- 1.3 Salwch Hirdymor .......... 6

**Ein Hegwyddor Atal** .......... **8**
- 2 Yr Holl Ddigwyddiadau .......... 8
- 3 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant .......... 9
- 4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC) .......... 11
- 5 Prif achos tanau damweiniol mewn cartrefi .......... 12
- 6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi .......... 14
- 7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi .......... 15
- 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig .......... 17
- 9 Archwiliadau Diogel ac Iach .......... 20

**Ein Hegwyddor Diogelu** .......... **23**
- 10 Galwadau Diangen .......... 23
- 11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol .......... 24
- 12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai .......... 24
- 13 CEF Berwyn .......... 25

**Ein Hegwyddor Ymateb** .......... **26**
- 14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad .......... 26
- 15 Argaeledd 18 Pwmp Arfaethedig .......... 27

**Ein Hegwyddor Amgylcheddol** .......... **28**
- 16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau .......... 28
- 17 Tanau gwyllt .......... 28
- 18 Llifogydd .......... 29

**Geirfa** .......... **30**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch

Yn ôl Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2023 - Medi 2023, y cyfartaledd yw 4.43 diwrnod dyletswydd o absenoldeb salwch i bob aelod o staff, sy'n cyfateb i 5.82%.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd ar gyfer GTAGC oherwydd absenoldeb salwch yn ystod chwarter 1 yn parhau i fod yn is, ar 5.25%, er fod hyn wedi cynyddu 0.22% ers chwarter 1 2023/24.

Roedd 863 o unigolion yn cael eu cyflogi mewn 911 o rolau gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn ystod chwarter un.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, ni fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn gyfanswm o'r chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau i ddata gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch

| | Blwyddyn 2023/2024 | | | Blwyddyn 2024/2025 | | | Amrywiant Cyfradd Absenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Achosion Ch.1 | Diwrnodau Ch.1 a Gollwyd | Amser Ch.1 a Gollwyd | Achosion Ch.1 | Diwrnodau Ch.1 a Gollwyd | Amser Ch.1 a Gollwyd | |
| **Salwch Hirdymor** | 64 | 3448 | 4.43% | 51 | 3098 | 3.78% | ↓ 0.65% |
| **Salwch Tymor Byr** | 88 | 472 | 0.59% | 155 | 1204 | 1.47% | ↑ 0.88% |
| **Cyfanswm** | **152** | **3920** | **5.03%** | **206** | **4302** | **5.25%** | **↑ 0.22%** |

Yn ystod Chwarter 1, mae nifer yr achosion o absenoldeb tymor byr wedi dyblu bron, gydag absenoldeb tymor byr yn cyfrif am 1.47% o'r amser a gollwyd, cynnydd o 0.88% o'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

Ar y llaw arall, mae nifer yr achosion o salwch hirdymor wedi gostwng o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol, gydag absenoldeb hirdymor bellach yn cyfrif am 3.78% o'r amser a gollwyd.

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser wedi ei golli er bod llai o achosion o absenoldeb yn cael eu cofnodi. Y rheswm am hyn yw fod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad o ganran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.

Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

### 1.2 Salwch Tymor Byr

Mae salwch tymor byr yn cyfateb i 1.47% o'r amser a gollwyd yn ystod y chwarter cyntaf.

| | 2023/24 Achosion Ch.1 | 2023/24 Diwrnodau Ch.1 a gollwyd | 2023/24 Amser Ch.1 a gollwyd % | 2024/25 Achosion Ch.1 | 2024/25 Diwrnodau Ch.1 a gollwyd | 2024/25 Amser Ch.1 a gollwyd % | Canran y newid mewn achosion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser Cyflawn* | 24 | 122 | 0.49% | **54** | **461** | **1.88%** | **125%** |
| System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad | 44 | 263 | 0.62% | **71** | **543** | **1.29%** | **61%** |
| Ystafell Reoli | 7 | 34 | 1.51% | **13** | **80** | **2.96%** | **85%** |
| Adrannau Corfforaethol | 13 | 76 | 0.60% | **17** | **120** | **0.94%** | **31%** |
| **Cyfanswm** | **88** | **495** | **0.59%** | **155** | **1204** | **1.47%** | **76%** |

(*Amser cyflawn - yn cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn ffigurau amser cyflawn a Phenaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol).

### Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (Achosion)

| | Rheswm Dros Absenoldeb | Ch.1 | Amser a gollwyd % |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol – aelodau gwaelod y corff | 21 | 2.54% |
| 2 | Annwyd, Ffliw | 31 | 1.67% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol – aelodau ucha'r corff | 9 | 1.20% |

Mae amser a gollwyd yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion. Mae'r rhesymau uchod dros absenoldebau ar draws pob math o ddyletswydd.

Mae nifer yr achosion tymor byr wedi cynyddu 76% rhwng Ch1 y llynedd a Ch1 eleni. Fodd bynnag, mae'r nifer o ran unigolion ar gyfer y ddau gyfnod Ch1 yn parhau i fod ar lefelau tebyg.

Bu nifer uchel o achosion o annwyd/ffliw, bygiau stumog/norofeirws ac, er ein bod wedi cael nifer o achosion covid gyda gweithwyr yn anfon cais salwch oherwydd eu bod yn symptomatig ac yn sâl, mae hyn wedi aros ar lefel debyg i Ch1 2023. Ers 2022, mae absenoldeb oherwydd covid wedi cael ei drin fel absenoldeb arferol ar gyfer tâl, adolygiadau, ystadegau ac ati.

Adroddwyd bod 20 achos, neu 12% o'r achosion salwch tymor byr, o ganlyniad i salwch a dolur rhydd, a dim ond 6 achos o'r rhain oedd yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Adroddodd Llywodraeth y DU ar 28 Ebrill 2024 fod 'cynnydd annhymhorol mewn achosion norofeirws yn ystod wythnosau 16 ac 17 2024, i'w briodoli'n bennaf i gynnydd yn y nifer sy'n cael eu hadrodd ymhlith oedolion 65 oed a hŷn. Roedd hyn yn cyd-fynd â chofnodi mwy o achosion mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd 17 o achosion o ganlyniad i bryder a straen iechyd meddwl tymor byr, o'i gymharu â 7 achos iechyd meddwl tymor byr yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd 12 o'r 17 achos mewn gorsafoedd gweithredol (6 wrth gefn, 6 llawn amser); a 3 yn yr Ystafell Reoli. Er eu bod yn absenoldebau tymor byr am amrywiol resymau iechyd meddwl, cynigir yr un gefnogaeth gyda'r cyflogeion yn cael eu cyfeirio at gymorth sy'n gysylltiedig â GTAGC trwy wasanaethau Iechyd Galwedigaethol, Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng, Diffoddwyr Tân yr Ystafell Reoli, yn ogystal ag asiantaethau lleol eraill yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

### 1.3 Salwch Hirdymor

Mae salwch tymor hir yn cyfateb i gyfartaledd o 3.78% o amser wedi ei golli yn ystod chwarter 1.

| | 2023/24 Achosion Ch.1 | 2023/24 Dyddiau Ch1 a gollwyd | 2023/24 Amser Ch1 a gollwyd % | 2024/25 Achosion Ch.1 | 2024/25 Dyddiau Ch1 a gollwyd | 2024/25 Amser Ch1 a gollwyd % | Canran y newid mewn achosion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd system dyletswydd amser cyflawn | 12 | 833 | 3.35% | 20 | 1296 | 5.27% | 66% |
| System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad | 36 | 2378 | 5.53% | 22 | 1207 | 2.88% | -39% |
| Ystafell Reoli | 2 | 150 | 6.81% | 2 | 87 | 3.22% | 0 |
| Adrannau Corfforaethol | 9 | 329 | 2.70% | 7 | 508 | 3.97% | -22% |
| **Cyfanswm** | **64** | **3690** | **4.42%** | **51** | **3098** | **3.78%** | **-20%** |

### Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (Achosion)

| | Rheswm Dros Absenoldeb | Ch.1 | Amser a gollwyd % |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - Gwddf | 5 | 4.40% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - aelodau gwaelod y corff | 6 | 4.26% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol – aelodau ucha'r corff | 5 | 3.43% |

Mae amser a gollwyd yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion.

Mae nifer yr achosion tymor hir wedi gostwng yn Ch1 eleni o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd o ychydig dros 20%. Mae hyn wedi bod yn ostyngiad graddol dros 2023/2024 ac mae wedi parhau i ostwng yn 2024/25.

Yn ystod 2023/24 daeth nifer o achosion o salwch tymor hir iawn i ben gyda'r gweithwyr naill ai'n dychwelyd i'r gwaith, yn ymddiswyddo neu'n ymddeol oherwydd salwch.

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r ganran isaf o amser wedi ei golli oherwydd absenoldeb tymor byr o'r tri gwasanaeth.

Gogledd Cymru oedd â'r amser isaf wedi ei golli oherwydd absenoldeb hirdymor ar gyfer staff yr Ystafell Reoli ond roedd ychydig yn uwch na Chanolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer staff lifrai amser cyflawn ac roedd ar y lefel gyfartalog ar gyfer staff anweithredol, gyda 7.54% o amser yn cael ei golli.

Sylwer, bod data Cymru Gyfan ond wedi adrodd ar absenoldeb staff amser cyflawn, staff ystafell reoli a chorfforaethol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2023 a disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Hydref 2024.

# Ein Hegwyddor Atal


**2 Yr Holl Ddigwyddiadau**

**Yr Holl Ddigwyddiadau** – atebwyd **1,543** galwad i ddigwyddiadau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n ostyngiad o 5.9% o'i gymharu â chwarter un (Ch1) blwyddyn ariannol 2023/24, a 2.0% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd sef 1,512.

**Tanau – 414**, 29.4% yn llai na chyfartaledd tair blynedd Ch1 sef 586.


**Galwadau Diangen – 798**, 21.6% yn fwy na chyfartaledd tair blynedd Ch1 sef 656.

**Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig – 331**, 22.6% yn uwch na chyfartaledd tair blynedd Ch1 sef 270.



## 3 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**414** o danau; gostyngiad o 31.6% o'r 605 yr aethpwyd atynt yn ystod Ch1 blwyddyn ariannol 2023/24.




**Prif Danau**


- **Damweiniol:** 161 (79.3%).
- **Bwriadol:** 42 (20.7%).

**Tanau Eilaidd**

- **Damweiniol:** 92 (47.9%).
- **Bwriadol:** 100 (52.1%).

**Tanau Simdde**

- **19** (4.6% o'r holl danau yr aethpwyd i ddelio â nhw).




**Camau gweithredu hyd yma:**

- Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25, cwblhawyd cyfanswm o **5,006** Archwiliad Diogel ac Iach, sydd o flaen y targed.
- Mae Rheolwyr Partneriaethau yn parhau i feithrin perthynas ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel ac maent yn gweithio tuag at drefnu seminar i gefnogi hyn ymhellach.
- Mae Grŵp Llywio'r Ymgyrch wedi parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, ffyrdd a dŵr ar draws pob platfform cyfryngau.

- Roedd cryn sylw yn y cyfryngau i danau yn ymwneud â pheiriannau sychu dillad a arweiniodd at nifer o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, cyfweliadau â'r BBC yn cynnwys staff y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r bobl oedd yn byw yn y tai, ymgyrchoedd lleol a chyfweliadau radio.

- Paratoadau ar gyfer ein hymgyrchoedd Diogelwch Haf a fydd yn cynnwys cysylltu â phob maes carafanau a gwersylla ar draws y gwasanaeth i hyrwyddo defnydd diogel o farbeciws a llosgi dan reolaeth. Bydd y cyswllt yn amlygu'r angen i "blismona" eu safleoedd i atal cynnau tanau'n fwriadol.

- Mae gwaith Lefel 3 digwyddiadau i dargedu mannau sy'n cael tanau niferus (*hotspotting*) a diwrnodau Effaith ar y Gymuned gydag asiantaethau allanol yn parhau i fynd o nerth i nerth: 1 y mis ym mhob ardal.

- Mae llawer iawn o fewnbwn a gweithgarwch i hybu Diogelwch y Ffyrdd yn parhau i gael ei ddarparu, gan gynnwys stori Olivia, sesiynau Biker Brew / Paned i Feicwyr Modur, cyrsiau Biker Down a fideos diogelwch ar-lein.

- Prynwyd dyfeisiau gweithio unigol newydd i bob Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref ac am y tro cyntaf byddant yn cael eu rhoi i'r swyddogion Cydymffurfio. Bydd sesiynau hyfforddi a dosbarthu yn dechrau digwydd yn raddol yn ystod Ch2.


- Mae datblygiad ein staff atal yn parhau yn unol ag Amcanion yr Adran gydag o leiaf 2 sesiwn 30 munud bob mis gan ddefnyddio darparwyr allanol a mewnol.

**Camau Pellach**

Gweithgaredd parhaus.

## 4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)


Aethpwyd at **69** o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod chwarter cyntaf 2024/25, 24.2% yn llai na'r flwyddyn flaenorol (91), a 27.4% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd sef 95.



## 5 Prif achos tanau damweiniol mewn cartrefi

Roedd nifer o brif achosion dros danau damweiniol mewn cartrefi. Er mai'r mwyaf cyffredin yn ystod Ch1 2024/25 oedd 'Coginio – coginio arall', roedd hyn yn dal i ddangos gostyngiad o 40.9% o 22 i **13** o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Roedd 'nam ar offer neu beiriant' hefyd yn dangos gostyngiad o 61.5% o 13 i 5.

Er gwaethaf hyn, cynyddodd 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' 100.0% o 5 i **10**. Wedi dadansoddiad pellach o'r cynnydd hwn ni nodwyd tuedd bod unrhyw ddarn penodol o offer wedi achosi'r tanau.



**Camau gweithredu hyd yma:**

- Yn ystod Ch1, cafodd y polisi Archwiliad Diogel ac Iach a'r gweithdrefnau cysylltiedig eu hailwampio a'u cyflwyno i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

- Cwblhawyd adolygiad o'r 'meini prawf sgorio' yn ystod Ch1, ac maent yn gyson ym mhob swyddfa ardal bellach. Bydd hyn yn ein helpu i dargedu mor fanwl â phosibl. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod rhestrau'r Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref yn hylaw a bydd yn helpu i osgoi Archwiliadau Diogel ac Iach "hwyr".

- Mae ymgysylltu â chriwiau gweithredol yn parhau i ddigwydd yn rheolaidd iawn i sicrhau bod yr 1 awr a dreulir ar y gweithgaredd yn gynhyrchiol.

- 1 x Cynllun ymwybyddiaeth tân i blant a 7 x rhaglen FireSafe wedi eu cyflwyno (Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a Pentre Peryglon).


- 5 x cwrs Ffenics wedi eu cyflwyno i 58 o Blant a Phobl Ifanc.


**Camau Gweithredu Pellach:**

Cynllunio ar y gweill i benderfynu sut y bydd gweithgarwch ymyrraeth cynnau tanau yn cael ei ddarparu pan fydd y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol wedi dod i ben.

## 6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Yn ystod Ch1 2024/25, cafodd **13** o bobl anafiadau mewn **11** o Danau Damweiniol mewn Cartrefi. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y chwarter.





O'r **13** a anafwyd, roedd 9 (69.2%) wedi eu 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu', cafodd **1** fân anafiadau llosgi, cafodd **1** anafiadau llosg difrifol, ac roedd gan **1** 'anawsterau anadlu (heblaw 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu)'. Cofnodwyd math anaf yr **1** arall a anafwyd fel 'Arall'.

## 7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **56** (81.2%) o danau damweiniol yn y cartref yr atebwyd galwad iddynt yn ystod Ch1 blwyddyn ariannol 2024/25.

Dim ond mewn **46** (66.7%) TDC yr oedd larymau'n gweithio ac wedi seinio rhybudd. Ni oedd larymau wedi eu gosod mewn **13** o'r TDC yr aethpwyd iddynt.

O'r **69** TDC yr aethpwyd i'w diffodd, roedd **61** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd, ac **8** heb eu cyfyngu.




**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i ddioddef tân yn eu cartrefi**


- Mae Archwiliadau Diogel ac Iach yn parhau i gael eu darparu ar draws y gwasanaeth gyda'r ymdrech yn parhau i ganfod y bobl sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef tân.
- Mae rheolwyr partneriaethau yn parhau i feithrin perthynas gydag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel.
- Y 3 ymgyrch fwyaf ar galendr y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn ystod Ch1 oedd:
    - Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia: 2 x ddigwyddiad wedi'u trefnu oedd yn cynnwys dros 60 o bobl â dementia yng Ngerddi Bodnant ac ystâd wledig Plas Mawr.

- o Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod: Lansio fideo Archwiliad Diogel ac Iach yn ymgorffori Iaith Arwyddion Prydain. Hefyd, cafodd holl staff Amser Cyflawn/Criw Dydd hyfforddiant gloywi ynghylch gosod unedau i rai trwm eu clyw.
- o Wythnos Diogelwch Plant. Cynhaliwyd 3 digwyddiad ymgysylltu yn ein hysbytai cyffredinol.


- Rydym yn parhau i ymgysylltu â grwpiau bregus, er enghraifft, grwpiau dementia, gofalwyr ac ymarferwyr, y gymuned deithiol, ceiswyr lloches a llawer o grwpiau cysylltiedig ag oedran.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig


Aethpwyd i gyfanswm o **331** o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd) yn ystod Ch1 2024/25. Mae hyn yn ostyngiad o 0.3% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.



Mae'r graff canlynol yn dangos y galwadau gwasanaeth arbennig **ac eithrio gwrthdrawiadau ar y ffordd.**




Gostyngodd nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd atynt yn ystod Ch1 2024/25 o 18.2% i **63 o'i** gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Heblaw am Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd y categorïau a welodd y **cynnydd** mwyaf o ran ein presenoldeb mewn digwyddiad yn cynnwys:

- **5** Achos o achub neu dynnu o ddŵr – cynnydd o 400.0% o 1.
- **5** Gwneud yn Ddiogel (nid Gwrthdrawiad ar y Ffordd) - cynnydd o 400.0% o 1.
- **5** Digwyddiad Deunyddiau Peryglus - cynnydd o 150.0% o 2.
- **26** Achub/rhyddhau personau arall – cynnydd o 116.7% o 12.

Er gwaethaf hyn, gwelodd gategorïau eraill **leihad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt. Roeddent yn cynnwys:

- **15** Digwyddiadau cynorthwyo anifeiliaid - gostyngiad o 42.3% o 26.
- **108** Cynorthwyo asiantaethau eraill - gostyngiad o 3.6% o 112.
- **15** Sicrhau mynediad/allanfa - gostyngiad o 40.0% o 25.

**Camau gweithredu hyd yma:**

Yn ystod mis Ebrill cynhyrchwyd negeseuon fideo i gefnogi Wythnos Diogelwch Dŵr, ac yn fwy diweddar paratowyd a hwyluswyd 3 x digwyddiad 'Atal Boddi' ar yr un pryd a gynhelir ar 25 Gorffennaf yn Wrecsam, y Bala a Llanberis. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau a gefnogir gan nifer o asiantaethau, a disgwylir gweithgarwch mawr ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo'r neges 'Arnofio i Fyw'.


## 9 Archwiliadau Diogel ac Iach

Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25, cwblhawyd cyfanswm o **5,006** Archwiliad Diogel ac Iach:

- Roedd **1,185** (23.7%) yn atgyfeiriadau blaenoriaeth Uchel, gyda **719** (60.7%) yn dod gan asiantaeth bartner;
- Roedd **901** (18.0%) yn flaenoriaeth Ganolig, gyda **157** (17.4%) yn dod gan asiantaeth bartner;
- Roedd **2,920** (58.3%) yn flaenoriaeth Isel, gyda **232** (8.0%) yn dod gan asiantaeth bartner;

Er y bu cynnydd o 12.8% yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu gostyngiad o 12.4% yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd o'i gymharu â Ch1 2023/24.

Nifer yr 'Archwiliadau Diogel ac Iach' a gwblhawyd yn ôl lefel risg, ac yn dangos a gawsant eu hatgyfeirio gan asiantaeth arall ai peidio.



**Camau gweithredu hyd yma:**

- Mae'r Archwiliadau Diogel ac Iach yn parhau i gael eu cyflwyno gan bob criw gweithredol a'r Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref dynodedig. Ar hyn o bryd maent ymhell o flaen y targed ar gyfer y flwyddyn.

- Mae timau gwledig y system dyletswydd amser cyflawn yn rheoli'r blaenoriaethau Isel a Chanolig ar restr y System Reoli Cofnodion, gyda chefnogaeth am ddiwrnod bob mis gan aelodau'r tîm Diogelwch Tân. Dim angen gweithredu pellach.

- Mae'r broses o ailgyflwyno Archwiliadau Diogel ac Iach i'w cwblhau ar nosweithiau ymarfer yn ystod Ch1 yn cael ei fonitro.

- Mae'r criwiau Amser Cyflawn/Criw Dydd yn parhau i gynnal 1 awr bob dydd o weithgarwch wedi'i dargedu gan ddefnyddio troshaenau data Caerwysg. Mae ffurflenni diwedd taith yn cael eu derbyn a'u monitro. Dim problemau i'w hadrodd ac mae'r allbwn yn dda ar y cyfan.

- Caiff y broses o ganfod mannau problemus (*hotspotting*) ei monitro yn y cyfarfodydd Diogelwch Tân a gynhelir bob tair wythnos, a nodir ac ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion yn ôl y gofyn.

- Mae Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref yn parhau i reoli eu rhestrau RMS ac rwy'n falch iawn o ddweud eu bod o'r diwedd mewn sefyllfa iach iawn ac yn haws eu rheoli. Mae rheolwyr wedi gweithio'n galed i geisio sicrhau bod yr atgyfeiriadau a gawn yn cael eu targedu cymaint â phosibl.

- Nawr bod rhestrau Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref yn hylaw, mae timau Diogelwch Tân ardal yn cynnal ymgyrchoedd rheolaidd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio Data Caerwysg.

**Camau Gweithredu Pellach:**

- Seminar yr Asiantaeth: Cynhelir digwyddiad yn ystod mis Medi/Hydref lle bydd cynrychiolwyr gwadd o'r prif asiantaethau cyfeirio yn derbyn mewnbwn gan y tîm Atal i'w helpu i adnabod ein cynulleidfa darged. Mae'n hollbwysig bod ein hatgyfeiriadau yn cael eu targedu cymaint â phosibl i sicrhau ein bod yn cael yr effaith orau ac yn gallu eu prosesu'n gyflym.

- Sylweddolwyd bod y rhan fwyaf o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhelir yn ystod gweithgaredd 1 awr y dydd y criwiau Amser

Cyflawn/Criw Dydd, a hefyd yn ystod gweithgaredd targedu mannau problemus mewn tân (*hotspotting*), yn cael eu dosbarthu'n anghywir fel rhai blaenoriaeth Isel. Yn ystod Ch1, mae pob criw wedi derbyn cyfarwyddyd i ddechrau defnyddio'r un broses ddosbarthu blaenoriaeth (ffactorau cyfrannol) â'r swyddfeydd Diogelwch Tân ardal; bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y lefel flaenoriaeth gywir yn cael ei rhoi i bob Archwiliad Diogel ac Iach.

Mae'r gwaith hwn yn ei gamau datblygu cynnar a bydd yn cael ei fonitro'n ofalus. Fodd bynnag dylai helpu i leihau nifer y gwiriadau "lefel isel" a gynhelir a chynyddu gwiriadau Canolig ac Uchel.


# Ein Hegwyddor Diogelu

## 10 Galwadau Diangen

Aethpwyd i gyfanswm o **798** o Alwadau Diangen yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn gynnydd o 13.7% o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol.


Gellir priodoli'r cynnydd hwn mewn Galwadau Diangen i gynnydd o 29.7% mewn Larymau Tân oherwydd cyfarpar (System larwm awtomatig) (407 i **528**), yn ogystal â chynnydd o 50.0% mewn Galwadau Diangen Maleisus (14 i **21**).

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y galwadau diangen bwriadol o 281 i **249**.




## 11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol

Derbyniwyd **466** o alwadau Larwm Tân Awtomatig masnachol yn ystod y cyfnod adrodd, sef y nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod Ch1 yn y pum mlynedd diwethaf.





## 12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd 77 o alwadau Larwm Tân Awtomatig o ysbytai yn ystod Ch1 2024/25, sef y nifer isaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod Ch1 yn y pum mlynedd diwethaf. Aethpwyd at **30** digwyddiad, sef 51.6% yn llai na'r llynedd (62).



## 13 CEF Berwyn

Cafodd **8** o brif danau eu cynnau'n fwriadol yng Ngharchar y Berwyn. Mae hwn yr un nifer â Ch1 yn 2023/24.




**Camau gweithredu hyd yma:**

- Mae'r drefn gyfathrebu rhwng Carchar y Berwyn a'r Ystafell Reoli yn parhau i weithio'n dda gyda nifer o ddigwyddiadau nad ydym yn mynd iddynt neu'r criwiau'n camu lawr cyn mynd iddynt.

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ei berthynas waith gyda thîm Rheoli Carchar y Berwyn i barhau i ostwng ein presenoldeb yno i ddelio â galwad lle bo modd.

# Ein Hegwyddor Ymateb

**14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad**

Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau sydd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System dyletswydd ar alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos ac ar benwythnosau/gŵyl y banc.


Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd criw dydd llawn amser.

| **Argaeledd Gorsafoedd System dyletswydd ar alwad ar gyfartaledd 06:00-18:00** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Diwrnod/Mis | Ebrill | Mai | Mehefin | Ch.1 |
| Dyddiau yn yr Wythnos | 5 | 4 | 4 | 4 |
| Penwythnos (gan gynnwys Gŵyl y Banc) | 12 | 13 | 11 | 12 |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | **7** | **7** | **6** | **7** |

Sylwch fod y nifer sydd ar gael wedi'i dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

## 15 Argaeledd 18 Pwmp Arfaethedig

Rhaid cwblhau'r cynllunio ar gyfer sicrhau bod 18 Pwmp ar gael ar gyfer y diwrnod canlynol bob prynhawn. Mae'r amser a gymerir i gwblhau'r dasg hon yn dibynnu ar nifer y bylchau y mae angen eu llenwi a'r adnoddau sydd ar gael. Gall y gwaith cynllunio hwn gymryd rhwng 3 a 6 awr i'w gwblhau i ddechrau.




| Nifer y diwrnodau lle cyflawnwyd yr argaeledd oedd wedi'i gynllunio | |
|---|---|
| **Bodlonwyd Nifer y Pympiau Oedd ar Gael 100%** | |
| **Dyddiau yn yr Wythnos** | 61 |
| **Penwythnos/Gŵyl y Banc** | 29 |
| **Ni Fodlonwyd Nifer y Pympiau Oedd Ar Gael 100%** | |
| **Dyddiau yn yr Wythnos** | 1 |


N.B. Mae'r sylw isod gan Reolwr Argaeledd yr Ystafell Reoli yn egluro'r rheswm pam na ddangosir argaeledd 100% ar gyfer un diwrnod yn yr wythnos (29/05/2024).

O ran 29 Mai – adeg y cynllunio, 17½ o beiriannau oedd ar gael oherwydd nad oedd adnoddau ychwanegol ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, ar y diwrnod ei hun (a gofnodwyd wrth edrych yn ôl yn hytrach nag ar adeg y cynllunio) nid oedd nifer y peiriannau oedd ar gael fesul awr mewn gwirionedd wedi gostwng o dan 18 o beiriannau.

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol


## 16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **61** o danau glaswelltir, coetir a chnydau yn ystod y chwarter, gostyngiad o 59.1% o'r 149 a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn 56.4% yn is na'r cyfartaledd o 140 dros dair blynedd.




## 17 Tanau gwyllt

Aethpwyd i drin **1** tân gwyllt yn ystod y chwarter. Mae hyn 91.7% yn is na’r cyfartaledd tair blynedd o 12. O ganlyniad, gostyngodd yr amser a dreulir yn y lleoliad i bron i 8 awr, o’i gymharu â 353 awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.




## 18 Llifogydd

Aethpwyd i **19** digwyddiad llifogydd yn ystod chwarter cyntaf 2024/25. Mae hyn yn gynnydd o 26.7% yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol, ac mae'n gynnydd o 72.7% dros y cyfartaledd tair blynedd (11).

Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i wanwyn arbennig o wlyb, gyda 10 rhybudd glaw neu dywydd stormus wedi'u cyhoeddi gan y Swyddfa Dywydd ar gyfer un neu fwy o siroedd Gogledd Cymru ym mis Mai yn unig.

Aethpwyd at **4** digwyddiad llifogydd er mwyn gwneud lleoliad yn ddiogel, a rhoddwyd cyngor mewn **10** digwyddiad.



## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i'w trin. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i'r digwyddiad.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simdde | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i'r digwyddiad. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un mae'r gwasanaeth wedi mynd iddo ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |
| Galwadau Diangen - Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys i ddibenion maleisus bwriadol ac amheus. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen - System Iarwm awtomatig | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Dibreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir neu chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |

| | |
|---|---|
| Salwch Tymor Byr | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |